Criminal Justice Joint Inspection

# Ailsefydlu pobl ifanc - adroddiad terfynol ar waith yn y gymuned

Archwiliad thematig gan Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Carchardai EM

Hydref 2019

Arweiniwyd yr arolygiad yma gan Arolygydd EM Jane Attwood ar ran Arolygiaeth Prawf EM, ac Angus Mulready-Jones ar ran Arolygiaeth Carchardai EM, gyda chymorth tîm o arolygwyr a staff gweithrediadau, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Y rheolwyr sydd yn gyfrifol am y rhaglen arolygu yw Alan MacDonald a Martin Lomas. Dymunwn ddiolch i bawb a gyfranogodd mewn unrhyw ffordd i'r arolygiad yma. Heb eu help a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

Noder, yn yr adroddiad yma drwyddi draw newidiwyd yr enwau yn yr enghreifftiau ymarfer er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

© Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint o dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

# Cynnwys


**Rhagair .......…………………………………………………………………………..5**
**Ffeithiau Cyd-destunol ……………………………………………………...……7**
**Crynodeb Gweithredol .....……………………………………………………..…..8**
**Argymhellion ……………………………………………………………………...10**
**1. Cyflwyniad ..…………………………………………………………………....12**
1.1. Beth yw ailsefydlu? ………………………...……………………………..12
1.2 Cefndir .............................................……………………………….16
1.3 Nodau ac amcanion ...………………………………………………….16
1.4 Amlinelliad o'r adroddiad ……………………………………………….....16
**2. Deilliannau ar gyfer Plant a Ryddhawyd o Gystodaeth …………………..17**
2.1 Astudiaethau achos a data ……………………………………………….17
2.2 Aildroseddu a risg i eraill ……………………………………………………19
2.3 Llwybrau o droseddu ac ailsefydlu adeiladol ………………………………21
2.4 Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ……………………………………….23
2.5 Iechyd a llesiant ……......………………………………………………….25
2.6 Camddefnyddio sylweddau ………………………………………………….26
2.7 Teuluoedd ………………………………………………………….………27
2.8 Cyllid, budd-daliadau a dyled ………………………………………………..29
2.9 Casgliadau a goblygiadau …………………………………………………..30
**3. Gwaith ailsefydlu ieuenctid gan asiantaethau cymunedol ……………….31**
3.1 Rôl Asiantaethau mewn perthynas ag ailsefydlu ……………………………..31
3.2 Prosesau …………………………………………………………………….31
3.3 Asesu ……………………………………………………………………….32
3.4 Cynllunio ……………………………………………………………………32
3.5 Ymyriadau mewn cystodaeth ………………………………………………..33
3.6 Adeg rhyddhau ……………………………………………………………….35
3.7 Amodau trwydded …………………………………………………………….36
3.8 Pontio …………………………………………………………………………36
3.9 Gwybodaeth a chapasiti staff …………………………………………………38
3.10 Gwaith ar y cyd …………………………………………………………….39
**4. Rhannu Gwybodaeth/gweithio ar y cyd ……………………………………..40**
Canfyddiadau ynghylch rhannu gwybodaeth ……………………………41
**5. Casgliadau a goblygiadau …….....……………………………………………42**

**Cyfeiriadau** ……………………………………………………………………..43
**Atodiad 1: Geirfa** ………………………………………………………………44
**Atodiad 2: Methodoleg** ……………..……………………………………………..47
**Atodiad 3: Taith y Person Ifanc: Ailsefydlu** …………………………………48

# Rhagair

Bob blwyddyn mae cannoedd o blant yn cael eu rhyddhau o gystodaeth i'r gymuned, ac mae gan nifer ohonynt anghenion dwys iawn mewn perthynas â chefnogaeth a gofal dilynol. Yn 2015 bu i ni gyhoeddi adroddiad ar ailsefydlu pobl ifanc oedd yn amlygu deilliannau gwael i blant oedd yn gadael cystodaeth. Cynigiwyd argymhellion gennym er mwyn gwella gwaith ailsefydlu a helpu grŵp o blant y mae modd dadlau eu bod ymysg y rhai mwyaf difreintiedig. Mae hyn wedi bod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Felly roedd yn hynod siomedig canfod bod nifer o'r problemau a'r rhwystrau mewn perthynas ag ailsefydlu llwyddiannus yn dal i fodoli.

Edrychodd yr arolygiad diweddaraf yma ar brofiad 50 o blant a ryddhawyd rhwng Hydref 2018 ac Ebrill 2019 o'r pum sefydliad troseddwyr ifanc (YOI). Cyhoeddwyd adroddiad interim gennym ym mis Awst 2019 oedd yn edrych ar y gwaith a wnaethpwyd gyda phlant tra eu bod mewn cystodaeth, gan adrodd yn bennaf ar waith staff cystodaeth. Mae'r adroddiad yma yn edrych eto ar y cyfnod cystodaeth ond mae'n canolbwyntio ar y gwaith a wnaethpwyd gan yr asiantaethau allanol er mwyn paratoi plant ar gyfer eu rhyddhau. Roeddem hefyd yn edrych ar gynnydd plant yn ystod y tri mis cyntaf ar ôl eu rhyddhau i'r gymuned. Er mwyn cael darlun cyflawn o waith YOIau a Thimau Troseddwyr Ifanc (YOT), mae'r adroddiad interim yn rhan annatod o ddeall profiad cyffredinol plant a phobl ifanc ac ailsefydlu.

Mae'r gorchymyn cadw a hyfforddi yn un ddedfryd y mae ei hanner yn cael ei bwrw mewn cystodaeth a'r ail hanner yn y gymuned. Yn yr un modd ag yr ydym yn cynllunio ar gyfer symud plant o un ysgol i'r llall neu o'r cartref i'r brifysgol, dylai gwaith ailsefydlu ystyried beth sydd eisoes wedi digwydd a ble mae'r plentyn yn ceisio ei gyrraedd mewn bywyd. Yn anffodus, nid dyma oedd y gwirionedd mewn nifer o achosion. Gyda rhai eithriadau, roedd yr hanner cyntaf, yr elfen gystodaeth, yn canolbwyntio ar gyfyngu, rheoli ymddygiad a gwneud defnydd adeiladol o amser mewn cystodaeth. Yn aml iawn nid oedd yr ail hanner, yr elfen gymunedol, yn adeiladu ar yr hyn a ddigwyddodd mewn cystodaeth, neu yn waeth na hynny, roedd yn cael ei anwybyddu. Gyda rhai eithriadau penodol, nid oedd y gwaith yn effeithiol ac nid oedd deilliannau'r plant yn dda. Tri mis ar ôl eu rhyddhau, roedd 10 o'r 50 o bobl ifanc yr oeddem yn eu dilyn wedi cael eu heuogfarnu am droseddau eraill ac roedd eu hanner yn destun ymchwiliadau gan yr heddlu. Roedd chwech wedi mynd ar goll.

Er nad yw gwaith ailsefydlu da yn gwarantu y bydd plant yn gwneud yn dda, mae'n cynnig y cyfle gorau iddynt newid a bod yn aelodau cynhyrchiol o'u cymunedau. Gwelsom rai enghreifftiau o waith ailsefydlu rhagorol oedd yn cynnig y cyfleoedd gorau i blant newid eu bywydau ac ail integreiddio'n llwyddiannus i'w cymunedau. Yn yr achosion hynny, roedd asiantaethau mewnol ac allanol wedi gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau asiantaethau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wedi eu sefydlu erbyn y'u rhyddhawyd. Ond yn rhy aml, roedd y gwaith a welsom yn canolbwyntio ar broses ac yn oddefol, ac yn aml fe'i gadawyd nes ei bod yn rhy hwyr iddo fod yn effeithiol.

Mewn cystodaeth nid oedd asiantaethau bob amser yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gydlynu eu hymyriadau, ac nid oeddent yn sicrhau bod

darpariaeth yn ei le er mwyn parhau i ddarparu cymorth ar ôl rhyddhau. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar lenwi amser y plentyn tra yr oedd mewn cystodaeth, yn hytrach na'i baratoi[1] i ddechrau ffordd wahanol o fyw yn y gymuned. Ar yr un pryd, yn rhy aml nid oedd asiantaethau allanol yn dechrau cynllunio o'r cychwyn, ac yn gadael y gwaith o drefnu ymyrraeth tan ar ôl rhyddhau, fel bod y plentyn yn gorfod disgwyl i wasanaethau ddechrau. Mewn gormod o achosion, nid oedd gan y plentyn gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg i fynd iddo, ac yn anaml iawn yr oedd cymorth iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar gael ar ddiwrnod rhyddhau.

Roedd diffyg llety addas a diogel yn parhau i fod yn broblem arwyddocaol i nifer fechan o blant. Nid yw hon yn broblem newydd; amlygwyd hynny gennym yn 2015 a chynigwyd argymhelliad penodol gennym, ond ychydig iawn sydd wedi newid.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

**Peter Clarke CVO OBE QPM**
Prif Arolygydd Carchardai EM

Hydref 2019

[1] Defnyddir y rhagenw gwrywaidd drwyddi draw a dim ond achosion bechgyn a arolygwyd. Nid yw genethod yn cael eu cadw mewn YOIau.

## Ffeithiau Cyd-destunol

| | Gwybodaeth Genedlaethol |
|---|---|
| **35.7%** | Cyfradd aildroseddu yn achos plant a gafodd ddedfryd o orchymyn atgyfeirio ieuenctid (Ebrill 2016 i Fawrth 2017)[2] |
| **64.6%** | Cyfradd aildroseddu yn achos plant a ddedfrydwyd i gystodaeth (Ebrill 2016 i Fawrth 2017) |
| **73%** | Canran poblogaeth pobl ifanc mewn cystodaeth (dan 18 oed y unig) a garcharwyd mewn sefydliadau troseddwyr ifanc |
| **37%** | Canran poblogaeth pobl ifanc mewn cystodaeth (dan 18 oed y unig) a garcharwyd 50 milltir neu ragor o'u cartrefi[3] |
| **552** | Nifer y bobl ifanc 15-17 oed a ryddhawyd o gystodaeth (Ebrill 2018 i Mawrth 2019)[4] |

| | O blith y 5 o bobl ifanc a ryddhawyd o bum YOI a draciwyd gennym hyd at dri mis ar ôl eu rhyddhau[5] |
|---|---|
| **10** | Euogfarnwyd am drosedd arall |
| **Hanner** | Yn destun 'rhyddhau dan ymchwiliad' |
| **10** | Yn ffurfiol wedi torri eu hamodau trwydded |
| **8** | Achosion unigol gydag anabledd wedi ei nodi'n glir, nam ar y clyw yn amlach na pheidio |
| **10** | Pobl ifanc a dros yn 18 oed yn ystod cyfnod cystodaeth y ddedfryd |
| **29** | Plant a warchodwyd ar y pryd, neu a warchodwyd cyn hynny, gan yr awdurdod lleol |
| **14** | Plant a ganfuwyd eu bod yn ymwneud â llinellau cyffuriau |
| **22** | Plant a ganfuwyd eu bod yn ymwneud â gangiau |
| **21** | Rhieni neu ofalwyr a fynychodd gyfarfodydd cynllunio ailsefydlu |

Nid oes data dibynadwy ar gael ynghylch deilliannau llety neu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) i blant sydd yn gadael cystodaeth. Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ond mae yna broblemau sylweddol ynghylch dibynadwyedd y ddau set o ddata. Mae gwaith yn cael ei wneud ar fynd i'r afael â'r problemau er mwyn sicrhau gwell ansawdd yn y dyfodol. Hefyd nid oeddem yn gallu cael data cenedlaethol am gyfraddau tramgwyddo neu adalw yn achos plant oedd yn gadael cystodaeth.

---

[2] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). Tablau ategol Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2017 i 2018.

[3] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Adroddiad Cystodaeth Ieuenctid:* Mai 2019. (Mynediad 29 Gorffennaf 2019)

[4] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid:* 2017 i 2018 (Mynediad 29 Gorffennaf 2019)

[5] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Ystadegau chwarterol Rheoli Troseddwyr: Ionawr i Fawrth 2019* (Mynediad 29 Gorffennaf 2019)

# Crynodeb gweithredol

Dilynodd Arolygwyr o Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM sampl o 50 o bobl ifanc a ryddhawyd o'r pum YOI (10 o bob un) yn ystod y cyfnod o Hydref 2018 i Fawrth 2019. Traciwyd gwaith a wnaed gyda'r plant yma yn ystod y cyfnod cystodaeth a hyd at dri mis ar ôl eu rhyddhau. Cyfwelwyd â gweithwyr YOT a YOI oedd yn ymwneud â'r achosion yma a chafwyd 36 o gyfarfodydd gyda'r plant eu hunain mewn cystodaeth a chynhaliwyd 16 o gyfweliadau gyda nhw yn y gymuned ar ôl eu rhyddhau.

Yn 2015, roedd deilliannau yn wael ar gyfer y rhan fwyaf o'r plant oedd yn gadael cystodaeth. Nid oedd llawer wedi newid yn 2019. Yn achos ychydig o blant, roedd gwaith cydweithredol rhwng asiantaethau yn canolbwyntio ar anghenion unigol y plentyn a'r risgiau cysylltiedig. Roedd y gwaith hwn yn dechrau yn gynnar, yn parhau drwy gydol cystodaeth ac i'r gymuned ac yn cael ei ddarparu yn syth ar ôl rhyddhau, a chanlyniad hynny oedd bod y plentyn mewn sefyllfa dda i newid eu bywydau. Ond yn achos y rhan fwyaf, nid oedd hynny yn digwydd.

Mewn gormod o achosion, nid oedd plant yn cael eu paratoi'n effeithiol ar gyfer dychwelyd i'w cymunedau a dechrau byw bywydau cynhyrchiol ac ufuddhau i'r gyfraith. Yn aml nid oedd y gwasanaethau yr oeddent eu hangen ar ôl eu rhyddhau ar gael i'w helpu i ailsefydlu, ac nid oedd y risgiau yr oeddent yn eu hachosi yn cael eu rheoli'n ddigonol yn ystod eu dyddiau cynnar yn y gymuned.

Roedd darparu llety amserol ac addas yn parhau i fod yn broblem i nifer fechan o blant, ac nid oedd rhai ohonynt yn gwybod i ble yr oeddent yn mynd i fyw tan ddiwrnod eu rhyddhau neu yn fuan iawn wedi hynny. O ganlyniad i hynny, nid oedd unrhyw wasanaethau eraill wedi eu trefnu ar eu cyfer ar ôl iddynt adael cystodaeth. Roedd gwaith da o ran cymorth iechyd meddwl mewn cystodaeth yn aml yn cael ei ddadwneud gan ddiffyg sylw i barhad cymorth ar ôl rhyddhau. Yn anaml yr oedd gwaith ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn arwain at weithgaredd pwrpasol yn y gymuned, neu'n cyfrannu at helpu'r plentyn i ystyried ei bosibiliadau i'r dyfodol mewn ffordd ystyrlon.

Yn aml, nid oedd y risgiau yr oedd y plentyn yn ei achosi i bobl eraill ar ôl ei ryddhau i'r gymuned - i deuluoedd a phlant, a'r cyhoedd yn ehangach - yn cael eu hystyried yn ddigonol yn ystod cystodaeth, ac roedd hynny yn golygu bod rhai pobl yn wynebu risg o niwed. Hefyd, nid oedd y risgiau i'r plant eu hunain yn cael eu hystyried yn llawn ac fe'u gadawyd yn agored i gael eu denu yn ôl at ymddygiad anniogel.

Roedd y plant a drodd yn 18 oed yn ystod eu cyfnod cystodaeth, ac a drosglwyddwyd i wasanaethau troseddu i oedolion, yn wynebu mwy o anawsterau o ganlyniad i golli eu hawliau i dderbyn gwasanaethau plant a'r disgwyliadau gwahanol a osodwyd arnynt gan yr asiantaethau newydd, a hynny'n aml heb fawr o baratoi neu ddealltwriaeth.

### Canfyddiadau allweddol o'n hadolygiadau maes a chyfweliadau gwaith maes

- Roedd deilliannau cyfiawnder troseddol yn wael. Tri mis ar ôl eu rhyddhau, roedd deg o'n sampl o hanner cant wedi cael eu heuogfarnu am droseddau eraill ac roedd eu hanner yn destun ymchwiliadau gan yr heddlu. Roedd deg wedi tramgwyddo a chwech wedi mynd ar goll.
- Ar ôl eu rhyddhau, dychwelodd tri deg o'r bobl ifanc i fyw gyda'u teuluoedd; dychwelodd un ar ddeg i lety awdurdod lleol ac aeth saith i fyw mewn llety â chymorth, a hynny yn aml heb ei reoleiddio. Ni ddywedwyd wrth rai plant ym mhle fyddent yn byw tan ychydig ddyddiau cyn eu rhyddhau, a chanfuwyd un achos yn unig pan fo plentyn oedd yn derbyn gofal wedi cael ei ddychwelyd i'r llety yr oedd yn byw ynddo cyn ei ddedfrydu
- Ychydig iawn o'r addysg a hyfforddiant mewn cystodaeth oedd yn cael ei gydlynu ar ôl eu rhyddhau. Ychydig iawn o weithwyr addysg a hyfforddiant YOT oedd yn ymweld â'r plant

mewn cystodaeth, ac roedd addysg neu hyfforddiant yn dechrau yn syth ar ôl eu rhyddhau yn achos dim ond 11 o'r 50 achos a arolygwyd

- Roedd gan dros 60 y cant o'r achosion anghenion iechyd mewn cystodaeth, ond dim ond mewn 26 y cant o'r achosion yr oedd tystiolaeth ar gael bod y YOT wedi darparu cymorth neu ymyrraeth ar gyfer yr anghenion hynny ar ôl rhyddhau
- Er y nodwyd bod camddefnyddio sylweddau yn broblem tra bod y bobl ifanc mewn cystodaeth mewn perthynas â thri chwarter yr hanner cant o achosion, darparwyd gwaith ar gamddefnyddio sylweddau mewn 44 y cant o'r achosion teilwng yn unig
- O'r 50 o achosion yr arolygwyd gennym, barnwyd gennym bod 37 wedi bod angen mewnbwn gan wasanaethau gofal cymdeithasol, ond mai dim ond chwech o'r rhain oedd wedi derbyn help digonol tuag at eu hanghenion ailsefydlu
- Dywedodd tri chwarter o'r rheolwyr achos a gyfwelwyd gennym nad oeddent wedi cael dim hyfforddiant o ran rheoli achosion ailsefydlu
- O blith y 50 o achosion a arolygwyd gennym, trodd 10 o blant yn 18 oed yn ystod eu cyfnod cystodaeth, ac roedd rhai o'r rhai hynny yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau prawf oedolion, ond o drafod gyda staff prawf yn y gymuned, roedd yn amlwg nad oedd yr un ohonynt wedi cael eu hyfforddi yn y maes gwaith yma.

## Argymhellion

Rydym yn ailadrodd argymhellion adroddiad yr arolygiad interim:

**Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Addysg a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol:**

1. ddarparu taliad cadw canolog ar gyfer llety pan fo angen hynny, er mwyn sicrhau bod gan blant lety addas, o leiaf un mis cyn y dyddiad rhyddhau cynharaf.

**Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi:**

2. sicrhau bod y staff sydd yn goruchwylio'r rhai sydd yn pontio i wasanaethau troseddu oedolion yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwasanaethau sydd yn briodol i oedran ac aeddfedrwydd yr unigolyn.

**Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:**

3. sicrhau bod data dibynadwy ar ddeilliannau plant sydd yn gadael cystodaeth ar gael er mwyn hysbysu gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir.

**Dylai'r Gwasanaeth Cystodaeth Ieuenctid:**

4. hyrwyddo dealltwriaeth o waith ailsefydlu effeithiol ar draws yr holl asiantaethau ac adrannau YOIau.
5. ei gwneud yn ofynnol i'r holl asiantaethau ac adrannau YOIau arddangos gwaith ailsefydlu effeithiol a chydlynol
6. cynyddu ystod ac argaeledd rhaglenni ymyrryd er mwyn bodloni anghenion ailsefydlu pobl ifanc
7. diffinio rôl a thasgau timau gwaith achos a hyfforddi staff gwaith achos yn unol â hynny
8. datblygu darpariaeth er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i wneud cais ar-lein am gyrsiau a chyflogaeth tra eu bod mewn cystodaeth.

**Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:**

9. negodi a darparu mynediad at ddarpariaeth troseddu oedolion ochr yn ochr â pharhad goruchwyliaeth gan YOTau.

**Rydym yn cynnig yr argymhellion ychwanegol:**

**Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Addysg a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru:**

1. ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol o lety cymunedol addas i blant sydd yn achosi'r risg o niwed mwyaf i'r cyhoedd, a darparu'r llety hwn yn rhanbarthol.
2. datblygu strategaeth llety cenedlaethol ar gyfer plant gaiff eu rhyddhau o gystodaeth.

**Dylai'r Swyddfa Gartref:**

3. adolygu'r broses 'rhyddhau dan ymchwiliad'.

**Dylai'r Gwasanaeth Cystodaeth Ieuenctid:**

4. gynyddu ystod ac argaeledd rhaglenni ymyrryd er mwyn bodloni anghenion ailsefydlu pobl ifanc.

**Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi:**

5. adolygu ac atgyfnerthu'r protocol pontio cenedlaethol er mwyn sicrhau bod plant ond yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion pan gellir dangos bod hynny er budd iddynt.

**Dylai YOTau:**

6. gyflawni eu dyletswyddau statudol a sicrhau eu bod yn ymwneud yn llawn mewn achosion ailsefydlu drwy gydol y ddedfryd
7. eirioli yn barhaus a chadarn ar ran eu hachosion mewn cystodaeth er mwyn sicrhau y bodlonir eu anghenion
8. hysbysu a chynnwys pobl ifanc mewn cystodaeth cyn gynted â phosibl ynghylch yr amodau fydd yn gynwysedig ar drwydded y person ifanc.

# Cyflwyniad

## 1.1. Beth yw ailsefydlu?

Yng nghyd destun troseddu pobl ifanc, ailsefydlu yw'r broses a ddefnyddir pan fo plant yn dychwelyd i'r gymuned ac yn setlo'n ôl i'w bywydau ar ôl cyfnod mewn cystodaeth.

Mae cystodaeth yn amharu ar fywydau plant. Mae'n golygu gwahanu oddi wrth deulu a ffrindiau, tarfu ar addysg ac o bosibl colli llety, ofn a thrallod emosiynol. Gall ailsefydlu hefyd fod yn frawychus, ac mae'n achosi problemau ymarferol. I rai, mae yr un mor drawmatig â mynd i gystodaeth, felly mae angen ei gynllunio a'i ddarparu yn ofalus.

Awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â'r heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), gwasanaethau iechyd a Gwasanaeth Cystodaeth Ieuenctid Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPSYCS) sydd yn statudol gyfrifol am ailsefydlu plant o gystodaeth. Yn ymarferol, mae'r cynllunio a'r cydlynu yn cael ei wneud yn bennaf gan YOTau[6] a thimau gwaith achos YOI.

Yn 2014 lansiodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) ddogfen Saith Llwybr Ailsefydlu[7] sydd yn diffinio saith maes allweddol bywyd person ifanc ac sydd yn darparu canllawiau ar gynllunio ar gyfer ailsefydlu. Y llwybrau yma yw llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, iechyd, camddefnyddio sylweddau, teuluoedd a chyllid, budd-daliadau a dyled. Cyflwynodd canllawiau diweddaraf YJB ar gystodaeth, *Sut Mae Ailsefydlu'n Adeiladol*, bum elfen ar gyfer ailsefydlu adeiladol. Sef: Adeiladol, Creu ar y Cyd, Addasu, Cyson a Chydlynol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi y dylid cael ***'un cynllun wedi ei deilwra i fynd i'r afael â'r anghenion a'r risgiau sydd yn gysylltiedig â phob person ifanc, a hynny yn canolbwyntio o'r dechrau ar hyrwyddo dychwelyd yn ddiogel i'r gymuned'.***

Mae canllawiau rheoli achosion YJB (2019) ar gystodaeth ac ailsefydlu yn amlinellu[8] rolau a thasgau YOI a YOT fel a ganlyn:

***'Os ydych yn rheolwr achos rydych yn gyfrifol am reoli achosion mewn perthynas â gorchmynion cymunedol a chystodaeth, ac yn atebol ar y cyd gyda'r ystâd ddiogel am gynllunio a chyflawni dedfryd.***

***Mae rheolwyr achos yn gyfrifol am asesu diogelwch a llesiant y plentyn drwy ddefnyddio AssetPlus. Mae'n rhaid i hon fod yn broses ddeinamig, gydag ailasesu'n digwydd yn rheolaidd yn ystod y ddedfryd yn ogystal ag ar ôl unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn. Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau mewn cystodaeth, megis darparwyr iechyd, dysgu a sgiliau gynnal asesiadau er mwyn gallu teilwra eu gwasanaethau ar gyfer anghenion unigol. Dylai gweithwyr achos mewn sefydliadau diogel sicrhau ar y cyd bod unrhyw dystiolaeth newydd a gesglir o'r asesiadau yma yn cael eu hymgorffori yn asesiad AssetPlus a bod y rheolwr achos yn cael ei hysbysu am y newidiadau yma'.***

---

[6] Defnyddir amrywiaeth enwau i gyfeirio at wasanaethau sydd yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth i blant sydd wedi troseddu. Yn yr adroddiad yma cyfeirir atynt fel Timau Troseddu Ieuenctid (YOTau)

[7] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2019). *Saith llwybr ailsefydlu.*

[8] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2019). Cystodaeth ac ailsefydlu: adran 7 canllawiau rheoli achos.

### Rôl YOI mewn perthynas ag ailsefydlu

Mae rheolwyr achos YOI[9] yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn er mwyn ei gefnogi i gyflawni'r targedau yn ei gynllun dedfryd[10] a'i baratoi ar gyfer rhyddhau. Nhw yw'r unigolion cyswllt allweddol ar gyfer rhieni/gofalwyr y plentyn, YOTau, gweithwyr iechyd a chamddefnyddio sylweddau allanol a'r gweithwyr proffesiynol eraill sydd yn ymwneud ag achos y plentyn.

Mae asiantaethau eraill yn yr ystâd gystodaeth yn gweithio gyda'r plentyn yn unol â'i anghenion a'i risgiau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau iechyd (meddyliol a chorfforol), darparwyr addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae canllawiau rheoli achosion YJB yn nodi:

***'Chi fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r cynllun dedfryd mewn perthynas â'r sefydliad diogel. Mae hyn yn cynnwys:***

- ***gweithio gyda'r plentyn i'w helpu i ddeall a chyflawni'r amcanion a'r targedau a ddiffinnir yn ei gynllun dedfryd***
- ***sicrhau bod cydweithwyr yn y sefydliad diogel yn cydweithio a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol***

***Byddwch yn cydweithio â rheolwr achos YOT er mwyn sicrhau bod anghenion a risgiau'r plentyn yn cael eu nodi a bod adnoddau yn cael eu cydlynu a'u rheoli'n effeithiol er mwyn mynd i'r afael â nhw drwy gydol y ddedfryd. Chi hefyd fydd y cyswllt allweddol ar gyfer yr YOT, rhieni a gofalwyr, a'r holl weithwyr proffesiynol eraill sydd yn ymwneud ag achos y plentyn'.***

Rheolwr achos YOI sydd yn trefnu'r cyfarfodydd cynllunio, sydd yn eu tro yn gyrru'r broses ailsefydlu.

### Rôl YOT[11] mewn perthynas ag ailsefydlu

Yr YOT sydd yn gyfrifol am reoli achosion mewn perthynas â gorchmynion cystodaeth, ac yn atebol ar y cyd gyda'r ystâd ddiogel am gynllunio a chyflawni dedfryd. Yr YOT sydd yn bennaf gyfrifol am drefnu gwasanaethau ar gyfer ac ar adeg rhyddhau. Mae hynny yn cynnwys cydlynu darpariaeth iechyd, addysg a gofal cymdeithasol allanol i blant.

Yn ymarferol, mae hynny yn golygu cynllunio, a darparu gwasanaethau ac ymyriadau priodol ar y cyd i'r plentyn mewn cystodaeth a thu allan.

Pan fo'r plentyn yn mynd i gystodaeth, mae'r YOT yn darparu asesiad cynhwysfawr o'r plentyn i'r YOI. Gelwir hyn yn asesiad AssetPlus. Dylai gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol a phriodol am y plentyn, ei amgylchiadau, a'i iechyd a'i addysg. Dylai hysbysu'r *holl* gynlluniau, o leiaf ar y cychwyn, a dylid ei ddefnyddio er mwyn ystyried a chynllunio ar gyfer anghenion a risgiau ailsefydlu.

---

[9] Ar draws y pum YOI, roedd gan yr ymarferwyr oedd yn gwneud gwaith achos amrywiol deitlau. Yn yr adroddiad yma cyfeirir atynt fel rheolwyr achos, oherwydd bod hynny yn disgrifio'r rôl maent yn ei gweithredu.

[10] O dan orchymyn cadw a hyfforddi, mae'r ddedfryd yn cael ei bwrw yn rhannol mewn cystodaeth ac yn rhannol yn y gymuned. Dylai'r cynllun gysylltu'r ddau, gan sicrhau bod y cyfnod mewn cystodaeth yn canolbwyntio ar baratoi'r plentyn am fywyd o ufuddhau i'r gyfraith yn y gymuned.

[11] Yn yr adroddiad hwn, pan ydym yn cyfeirio at YOT, mae hynny yn cynnwys pa bynnag asiantaeth cyfiawnder troseddol sydd yn goruchwylio'r plentyn. Felly gallai atgyfeirio at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Gwmni Adsefydlu Cymunedol os mai'r asiantaeth honno yw'r brif asiantaeth oruchwylio.

### Rôl gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant mewn perthynas ag ailsefydlu.

Mae unrhyw blentyn oedd yn derbyn gofal, llety neu gymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant awdurdod lleol cyn mynd i gystodaeth yn parhau i fod â hawl i dderbyn y cymorth hwnnw tra ei fod mewn cystodaeth ac ar ôl ei ryddhau.[12]

Yn ymarferol, mae hynny yn golygu y dylai gwasanaethau gofal cymdeithasol plant barhau i gyfranogi tra bod y plentyn mewn cystodaeth ac ar ôl ei ryddhau, a darparu gwasanaethau megis llety.

Hefyd, os bydd y plentyn yn ddigartref yn ystod y cyfnod mewn cystodaeth, mae gan yr awdurdod lleol yr un dyletswyddau ag y byddai ganddo at blentyn digartref yn y gymuned.

### Pontio i wasanaethau oedolion

Os bydd plentyn yn cael ei benblwydd yn 18 oed hanner ffordd, neu cyn hynny, drwy ddedfryd cystodaeth o lai na 24 mis, gallai gael ei drosglwyddo i wasanaethau troseddu oedolion.

Nid yw'r trosglwyddo i wasanaethau oedolion yn orfodol a dylai ***'ystyried safbwyntiau'r bobl ifanc a pha waith fydd angen ei wneud er mwyn bodloni amcanion y ddedfryd, er mwyn mynd i'r afael â'r tebygolrwydd o aildroseddu a'r risg o niwed i eraill, ac er mwyn rheoli natur fregus.' Hefyd, 'Bydd y penderfyniad i naill ai gadw'r achos yn yr YOT neu drosglwyddo i'r darparwr prawf perthnasol yn cael ei gofnodi yng nghronfa ddata yr asiantaeth berthnasol'.***[13]

Hefyd, mae'r protocol pontio yn nodi y dylai'r YOT ***'addysgu'r person ifanc a'u deulu ynglŷn â'r system cyfiawnder oedolion a cheisio safbwyntiau'r person ifanc'.***

Yn ymarferol, mae'r rhai sydd yn gymwys yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau prawf oedolion tra eu bod mewn cystodaeth. Gall goruchwyliaeth gan wasanaethau oedolion fod yn sylweddol wahanol i oruchwyliaeth gan wasanaethau troseddu ieuenctid. Hefyd, gall yr unigolyn golli mynediad at wasanaethau plant eraill, megis gofal cymdeithasol plant, gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau i blant.

Pan fo pontio yn digwydd, bydd angen i weithwyr proffesiynol feithrin perthnasoedd newydd gydag oedolion ifanc nad ydynt bob amser wedi cael profiad da o help proffesiynol. Mae'n hanfodol bod yr asiantaethau newydd yma yn cyfarfod â'r plentyn mewn cystodaeth ac yn dechrau ymgysylltu ag ef cyn ei ryddhau.

### Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL)

Mae'r rhain yn wasanaethau a gweithgareddau sydd angen eu sefydlu yn syth ar ôl rhyddhau er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael y cyfle gorau i ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned. Mae cynnal perthnasoedd allweddol yn bwysig hefyd er mwyn ailsefydlu'n llwyddiannus.

Er mwyn helpu i fodloni'r amcanion yma, gall rhyddhau dros dro i'r gymuned ar drwydded fod yn ddefnyddiol, er enghraifft ymweliad â lleoliad llety neu gyfarfod â darparwr addysg. Gellir gwneud hyn drwy ROTL.

Mewn YOIau mae'n rhaid i blant fwrw hanner eu cyfnod cystodaeth, neu fod 24 mis i ffwrdd o'r dyddiad rhyddhau, pa un bynnag yw'r dyddiad hwyraf, cyn iddynt fod yn gymwys am ROTL.

Mae gwaith ailsefydlu yn cynnwys YOIau, YOTau ac asiantaethau eraill yn cydweithio er mwyn paratoi plant mewn cystodaeth ar gyfer eu rhyddhau. Ni all gwaith ailsefydlu gael ei wneud yn

---

[12] Yr Adran Addysg (2010). Canllawiau Statudol - Deddf Plant 1989: plant arferai dderbyn gofal mewn cystodaeth.

[13] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gwasanaeth Carchardai a Prawf EM. (2018). *Joint National Protocol for Transitions in England: Joint protocol for managing the cases of young people moving from Youth Offending Teams to Probation Services*.

llwyddiannus gan naill ai asiantaethau cystodaeth neu asiantaethau cymunedol ar eu pennau eu hunain; mae'n rhaid iddynt gydweithio o ddechrau'r ddedfryd.

Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn arolygu'r gwaith a wneir mewn cystodaeth. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu gwaith YOTau, y prif asiantaeth sydd yn gweithio gyda phlant sydd yn gadael cystodaeth. Mae arolygu ar y cyd yn ein galluogi i archwilio sut mae'r asiantaethau yn gwneud y gwaith ailsefydlu ar y cyd a'r deilliannau maent yn eu cyflawni ar gyfer y plant.

## 1.2 Cefndir

Canfu arogliad thematig ar y cyd dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM yn 2015 bod:

- deilliannau yn wael ar gyfer y plant oedd yn gadael cystodaeth. Roedd hynny yn cynnwys ystyriaeth ddigon cynnar i ddiffyg llety addas, a methu trefnu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth priodol a realistig neu weithgareddau adeiladol ar adeg rhyddhau.
- roedd gwaith ailsefydlu yn aml yn dechrau yn rhy hwyr ac nid oedd gwaith yn y gymuned yn ddigon rhagweithiol yn ystod y cyfnod cystodaeth.

Ers yr archwiliad hwnnw, mae'r ystâd cystodaeth ieuenctid wedi cael ei haildrefnu, a chrëwyd y Gwasanaeth Cystodaeth Ieuenctid, sydd yn goruchwylio'r ystâd. Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid hefyd wedi parhau i esblygu'n wahanol ac maent yn newid eu dull o ddarparu gwasanaethau ar draws Cymru a Lloegr. Mae adroddiadau anecdotaidd gan YOIau a YOTau yn awgrymu bod diffyg llety a darpariaeth ETE addas yn parhau i fod yn broblem ystyfnig. Ni weithredwyd yr argymhelliad yn arolygiad 2015 i wella darpariaeth llety.

## 1.3 Nodau ac amcanion

Edrychodd yr arolygiad ar waith ailsefydlu gweithredol yn ystod cyfnod cystodaeth y ddedfryd ac yn ystod y tri mis ar ôl rhyddhau. Arolygwyd achosion 50 o blant gennym, 10 o bob YOI yng Nghymru a Lloegr, oedd yn agos at gael eu rhyddhau er mwyn ein galluogi i weld y cymorth a'r gwasanaethau a sefydlwyd yn y gymuned er mwyn eu helpu i ailsefydlu'n llwyddiannus. Pan fo'n bosibl, gwnaethom gyfarfod y plant mewn cystodaeth a chyfweld â'u gweithwyr achos.

Yna traciwyd y plant i'r gymuned gan edrych ar eu cynnydd yn ystod y tri mis ar ôl rhyddhau. Roedd hynny yn cynnwys cyfarfod dilynol gyda'r plentyn neu berson ifanc, a'i rieni neu ofalwr. Hefyd cyfwelwyd â'r rheolwr achos a gweithwyr proffesiynol eraill oedd yn gweithio gyda'r plentyn. Roedd ein hadroddiad cychwynnol yn canolbwyntio ar waith staff cystodaeth. Mae'r adroddiad yma yn edrych ar waith asiantaethau allanol a sut oeddent yn gweithio gydag asiantaethau eraill yn y gymuned ac yn cysylltu â phrofiad y plentyn mewn cystodaeth.

## 1.4 Amlinelliad o'r adroddiad

Mae'r adroddiad terfynol yma yn adolygu'r canfyddiadau interim ac yn adrodd ar y gwaith a wnaed gan staff cystodaeth ac asiantaethau allanol yn ystod y cyfnod cystodaeth. Mae adran gyntaf yr adroddiad yn ymwneud â deilliannau ar ôl rhyddhau ac yn darparu data ac astudiaethau achos.

Mae'r adran nesaf yn canolbwyntio ar waith ailsefydlu gan YOTau ond mae hefyd yn cynnwys canfyddiadau mewn perthynas â gwaith ar y cyd.

Yn yr adroddiad yma drwyddi draw, rydym yn cyfeirio at ganfyddiadau arolygiad 2015 a'r adroddiad ar ailsefydlu pobl ifanc a gyhoeddwyd yn Awst 2019.

# 2. Deilliannau ar gyfer Plant a Ryddhawyd o Gystodaeth

Yn arolygiad 2015 o ailsefydlu ieuenctid, canfuwyd gennym fod deilliannau ar gyfer plant a ryddhawyd o gystodaeth yn wael. Roedd eu cyfraddau aildroseddu yn uchel ac effeithiwyd ar eu cyfleoedd bywyd. Nid oes llawer wedi newid.

## 2.1 Astudiaethau achos a data

Yn ein adroddiad interim ar gyfer yr arolygiad yma, roeddem eisoes wedi gweld 10 achos o blant oedd wedi bod yn ôl yn y gymuned am dri mis. Roeddem yn gallu adrodd yn ôl ar beth arferion da gan YOIau a YOTau oedd wedi golygu bod rhai o'r plant hynny wedi gallu ailsefydlu'n llwyddiannus.

Yn anffodus, yn gyffredinol wrth arolygu'r 50 o achosion, ychydig iawn o enghreifftiau o ymarfer da a welwyd. Yr un achos a amlygodd ei hun oedd:

Astudiaeth achos: gwaith ailsefydlu llwyddiannus

Birmingham YOT/YOI Werrington

Roedd Muhammed wedi bod mewn cystodaeth ers ei fod yn 15 oed; fe'i rhyddhawyd chwe mis cyn ei benblwydd yn 18 oed. Cyn ei ddedfryd bu anawsterau yn y cartref, ac nid Muhammed oedd gwraidd pob un. Roedd wedi rhoi'r gorau i fynd i'r ysgol ac wedi cael ei ddenu at grŵp o gyfoedion troseddgar yn ei gymuned.

Yn ystod y cyfnod cystodaeth, treuliodd YOT lawer o amser yn gweithio gyda'i rieni er mwyn cefnogi ei broses o ddychwelyd adref. Ar adeg ei ryddhau, roedd yn destun rhaglen oruchwylio ddwys o 25 awr o gyswllt bob wythnos yn cynnwys Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth, a'i helpodd i setlo'n ôl yn ei gartref, ac a'i helpodd i ddatgysylltu ei hun â'r grŵp cyfoedion blaenorol.

Yn ystod ei gyfnod trwydded, roedd Muhammed wedi ymgymryd â'r prawf cerdyn sgiliau adeiladu er mwyn ei alluogi i weithio ar safleoedd adeiladu. Tri mis ar ôl ei ryddhau roedd yn dal wedi setlo'n ôl gyda'i deulu. Roedd yn cyfranogi'n gadarnhaol yn ei gymuned ac wedi dechrau dilyn ei grefydd unwaith eto. Roedd wedi datgysylltu ei hun oddi wrth ei gyfoedion troseddgar, wedi cydymffurfio'n llwyr â'i oruchwyliaeth YOT ac nid oedd wedi aildroseddu.

Gwelsom nifer fechan o achosion pan oedd y plentyn wedi setlo'n ôl yn y gymuned ac wedi dechrau ar fywyd newydd o ganlyniad i'w hymdrechion eu hunain, yn hytrach nag o ganlyniad i gymorth gan weithwyr proffesiynol. Rhoddir enghraifft o hyn ar y dudalen nesaf.

Yn yr achos yma, nid oedd y plentyn wedi disgwyl i gael cymorth gan bobl eraill ac mae'n ymddangos ei fod wedi llwyddo i ailsefydlu ei hun; ond nid yw pob plentyn yn gallu gwneud hynny. Roedd help proffesiynol wedi ei gyfyngu i ddilyn gweithdrefnau a mynychu cyfarfodydd cynllunio. Pa fo plentyn yn ymwneud ag asiantaethau proffesiynol, nid yw'n dderebyniol, yn ein barn ni, i'w prosesu yn unig drwy system.

## Astudiaeth achos: ailsefydlu llwyddiannus drwy ymdrechion y plentyn yn unig

Roedd Andris yn 17 oed pan y'i dedfrydwyd i chwe mis mewn cystodaeth am gario cyllell a chyffuriau.

Nodwyd bod camddefnyddio sylweddau ac addysg yn broblemau mewn cystodaeth; ei ail iaith oedd Saesneg. Ni dderbyniodd unrhyw ymyriadau i fynd i'r afael â'i broblemau. Ni lwyddodd i ennill unrhyw gymwysterau sgiliau swyddogaethol, megis llythrennedd neu rifedd. Treuliodd Andris ei amser fel glanhawr adain yn yr YOI.

Gwnaethpwyd gwaith cynllunio yn ystod y cyfnod cystodaeth, ond roedd hynny yn ddi-drefn. Bu i ni gyfarfod Andris cyn ei gyfarfod olaf a dywedodd wrthym "Dim ond un cyfarfod rwyf wedi ei gael. Does dim maen nhw'n gallu ei wneud yma. Mae angen i mi wneud fy sgiliau swyddogaethol, ond fedra i ddim gwneud hynny mewn tair wythnos" (yr amser oedd ganddo ar ôl o'i ddedfryd). Nid oedd ei fam, yr oedd yn byw gyda hi, wedi gallu ymweld ag ef ac felly nid oedd wedi gallu helpu na chymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau ailsefydlu.

Ar adeg ei ryddhau, dychwelodd i fyw adref a chanfu ei gyflogaeth ei hun. Pan fu i ni ei gyfarfod yn y gymuned, roedd wedi bod yn gweithio mewn amrywiaeth o swyddi, megis paentio ac addurno a garddio, ac roedd wedi dychwelyd i'r coleg i gwblhau ei gardiau Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS). Roedd yn bwriadu gweithio dros yr haf ac roedd wedi ei ysgogi i ennill arian; roedd eisiau bod yn berchen ar ei fusnes ei hun ac roedd yn cynilo er mwyn gwireddu ei nod.

Dywedodd wrthym: "Dydw i byth eisiau mynd yn ôl i'r carchar. Roeddwn yn casáu bod dan glo am gyfnodau hir." Roedd yn benderfynol ei fod am wneud yn saff nad oedd fyth yn mynd yn ôl.

## 2.2 Aildroseddu a risg i eraill

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, gadawodd 724 o blant gystodaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae data swyddogol yn dangos yr aeth bron i ddwy ran o dair (64.6 y cant) ohonynt ymlaen i aildroseddu yn ystod y 12 mis ar ôl eu rhyddhau.

Roedd gormod o blant yn ein sampl ni wedi troi at droseddu eto ar ôl eu rhyddhau.

O blith y 50 achos a arolygwyd gennym:

roedd 10 wedi eu heuogfarnu am droseddu eto

roedd 25 yn destun ‘rhyddhau dan ymchwiliad’[14]

roedd gan 9 faterion oedd dal yn destun ymchwiliad ers cyn y ddedfryd gyfredol

galwyd 3 yn ôl i gystodaeth

roedd 10 wedi tramgwyddo

roedd 6 ar goll[15]

[14]Dechreuodd ‘rhyddhau dan ymchwiliad’ ddod yn ymarferiad yn 2017, ac i raddau helaeth mae’n cael ei ddefnyddio yn hytrach na ‘rhyddhau ar fechnïaeth’. Yn ein sampl o fechgyn a ryddhawyd o gystodaeth, roedd gan nifer faterion yr oedd yr heddlu yn dal i ymchwilio iddynt mewn perthynas â’r cyfnod cyn iddynt gael eu dedfrydu. Data o grynodebau achosion.

[15] Roedd y rhain yn fechgyn oedd ar goll ar adeg y cyfnod dilynol yn y gymuned ac y cyhoeddwyd warantau ar eu cyfer. Data o grynodebau achosion.

Mae aildroseddu nid yn unig yn effeithio'n niweidiol ar gyfleoedd bywyd y rhai sydd yn troseddu, mae hefyd yn niweidio eu teuluoedd a'u cymunedau ac yn creu dioddefwyr, a bydd rhai ohonynt yn dioddef yn ddifrifol.

Gwelsom nifer o enghreifftiau o gynllunio ailsefydlu gwael, gyda chynlluniau annigonol ar gyfer llety a diogelu'r cyhoedd.

### Enghraifft o ymarfer gwael: diffyg paratoi ar gyfer rheoli risg uchel

Roedd Keiron yn 17 oed ac roedd yn Blentyn oedd yn Derbyn Gofal pan y'i dedfrydwyd i gystodaeth ac y rhoddwyd gorchymyn atal niwed rhywiol am droseddau rhywiol iddo. Collodd ei lety ar yr adeg honno.

Ni fynychodd addysg yn ystod ei gyfnod mewn cystodaeth ac ni threfnwyd ymyriadau er mwyn mynd i'r afael â'i droseddu rhywiol, er yr ystyriwyd ei fod yn achosi risg i enethod a merched ifanc.

Dywedwyd wrth Keiron na allai ddychwelyd i'w lety blaenorol oherwydd ei drosedd. Dywedodd nad oedd yn dymuno dychwelyd i fyw yn yr un ardal, oherwydd teimlai y byddai hynny yn ei arwain i aildroseddu. Nid oedd gan Keiron unrhyw lety i ddychwelyd iddo ar adeg ei gyfarfod cyn rhyddhau bythefnos cyn ei ryddhau; ni fynychwyd y cyfarfod hwnnw gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant. Diwrnod cyn ei ryddhau, canfuwyd cyfeiriad iddo - yn ei leoliad blaenorol.

Trodd Keiron yn 18 oed mewn cystodaeth ac fe'i trosglwyddwyd i wasanaethau oedolion, er nad oedd yn eglur pam y tybiwyd y byddai hynny er lles iddo, oherwydd bod ganddo hawl i gael cymorth parhaus gan wasanaethau gofal plant. Cafodd ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a chyfarfu â'i swyddog prawf newydd am y tro cyntaf, bythefnos cyn ei ryddhau, yng nghyd-destun ffurfiol y cyfarfod cyn rhyddhau. Hefyd fe'i trosglwyddwyd i dîm gwaith cymdeithasol gwahanol oherwydd ei oedran.

Ar adeg ei ryddhau, fe'i codwyd i fyny gan ei weithiwr cymdeithasol ond nid oedd y naill na'r llall yn gwybod i ba swyddfa prawf yr oedd angen iddo adrodd iddi. Nid oedd ychwaith yn gwybod i ba orsaf yr heddlu y dylai adrodd iddi o dan ei orchymyn atal niwed rhywiol. Yn ystod ei ddedfryd, roedd Keiron wedi cael tri swyddog NPS gwahanol, dau swyddog YOT a dau weithiwr cymdeithasol. Fe'i dyrannwyd a'i ddyrannu drachefn i ddwy swyddfa brawf mewn gwahanol drefi.

Mis ar ôl ei ryddhau, arestiwyd Keiron am droseddau rhyw newydd ac fe'i adalwyd i gystodaeth.

**Enghraifft o ymarfer gwael: diffyg cymorth ailsefydlu**

Roedd Otis yn 18 oed ac arferai dderbyn gofal. Pan fu i ni ei gyfarfod mewn cystodaeth, dywedodd wrthym nad oedd ei weithiwr YOT wedi mynychu ei gyfarfodydd cynllunio, ac roedd yn cael ei ryddhau yr wythnos ganlynol ac nid oedd yn gwybod ble yr oedd yn mynd i fyw.

Roedd wedi dioddef â phroblemau iechyd meddwl blaenorol, ond ni chafodd ei atgyfeirio i gael cymorth iechyd meddwl parhaus yn y gymuned gan y gwasanaethau cystodaeth na'r YOT. Ar adeg ei ryddhau, ni chafodd gymorth gyda'i bryderon iechyd meddwl, ac oherwydd ei fod bellach yn 18 oed, byddai angen ei atgyfeirio at wasanaethau oedolion.

Canfuwyd lle mewn hostel iddo ac fe ganfu ei ffordd ei hun yno o gystodaeth. Roedd hwn yn hostel cyffredinol i oedolion digartref, ble nad oedd dim cymorth penodol i bobl ifanc. Dyrannwyd gweithiwr YOT iddo ar adeg ei ryddhau, oherwydd roedd ei weithiwr blaenorol wedi bod ar absenoldeb salwch hirdymor ac nid oedd yr achos wedi cael ei ailddyrannu yn ffurfiol. Deliwyd â'r achos gan bwy bynnag oedd ar ddyletswydd, ac nid oedd gan unrhyw weithiwr gyfrifoldeb cyffredinol am reoli achos Otis a'i ailsefydlu. Oherwydd bod Otis bellach yn 18 oed, fe'i trosglwyddwyd i wasanaethau prawf gan y gweithiwr yma.

Tra bod Otis yn yr hostel, cafodd ei rybuddio am ddod â'i gariad a'i phlentyn bach yno. Rhannwyd y wybodaeth hon gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Darganfuwyd hefyd ei fod yn dad i ddau o blant, ac roedd y ddau ohonynt yn destun gweithdrefnau amddiffyn plant mewn dau awdurdod lleol gwahanol. Aseswyd ei fod yn risg posibl i'r plant yma oherwydd ei hanes o droseddu. Fe'i holwyd hefyd am ymosodiad ar breswylydd arall.

Ar ôl ei drosglwyddo i'r gwasanaeth prawf, aeth ar goll ac nid yw'n hysbys ble mae ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd warant i'w arestio. Nid oedd cynlluniau wedi cael eu gwneud ar gyfer ei ailsefydlu nac ar gyfer rheoli ei risg i'r cyhoedd.

Nid yw'n bosibl newid ymddygiad plentyn oni bai ei fod yn barod ac yn fodlon gwneud hynny. Mae'n bosibl i asiantaethau annog newid a darparu cymorth er mwyn rhoi y cyfle gorau posibl iddynt newid eu hymddygiad eu hunain. Pan nad yw hynny yn llwyddiant i ddechrau, mae angen i asiantaethau barhau i gynnig y cyfle.

Rhwystr arall rhag ailsefydlu'n llwyddiannus yw'r amser a gymerir erbyn hyn i ddelio â throseddau. Roedd gan ddeunaw y cant o'r achosion a arolygwyd faterion yn yr arfaeth yr oedd y plentyn yn dal yn destun ymchwiliad yr heddlu mewn perthynas â nhw, o'r cyfnod cyn iddynt dderbyn dedfryd cystodaeth.[16] Roedd nifer o'r materion hynny o natur ddifrifol. Un o egwyddorion allweddol polisi ailsefydlu adeiladol YLB yw galluogi plant i newid eu hunaniaeth eu hunain o fod yn hunaniaeth troseddgar i fod yn hunaniaeth cymdeithasgar. Mae'n debygol o fod yn rhyfeddol o anodd i berson ifanc newid eu hunaniaeth eu hunain os ydynt yn dal yn destun ymchwiliadau'r heddlu ers peth amser.

## 2.3 Llwybrau o droseddu ac ailsefydlu adeiladol

### Llety

Yn 2015 adroddwyd gennym bod trefniadau llety gwael ar adeg rhyddhau yn methu yn rhy aml, a bod hynny yn arwain at ddigartrefedd dros dro, symudiadau heb eu cynllunio, niwed i berthnasoedd teuluol a tharfu ar addysg neu gyflogaeth. Cynigiwyd argymhelliad gennym i wella'r sefyllfa llety ar gyfer y nifer fechan o blant nad oeddent yn gallu byw gyda'u teuluoedd.

[16] Data o grynodebau achosion.

Yn 2018-2019 nid oes dim wedi newid.  Dychwelodd y rhan fwyaf o'r plant at eu teuluoedd o gystodaeth - 60 y cant o'n sampl - ond yn achos y rhai nad oeddent yn gallu gwneud hynny, roedd y sefyllfa yn dal i fod yn ddifrifol.

**Enghraifft o ymarfer gwael: llety**

Roedd Sean yn 17 oed pan gafodd ddedfryd cystodaeth am drosedd dreisgar. Pan y'i arestiwyd, mewn fan oedd wedi ei dwyn, roedd ganddo ef ac eraill dwca, amonia a helmedau. Roedd wedi derbyn euogfarnau blaenorol, amheuwyd ei fod yn ymwneud â gangiau ac ystyriwyd ei fod yn achosi risg uchel i eraill.

Roedd Sean wedi cael llety gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant cyn iddo fynd i gystodaeth, oherwydd na allai fyw gartref. Roedd yn amlwg ei fod yn dal yn achosi risg uchel i'r cyhoedd, ac felly byddai angen dewis ei lety yn ofalus iawn er mwyn gallu rheoli'r risg yma.

Er hynny, nid oedd gan Sean rywle i fyw ar y diwrnod y'i rhyddhawyd, er bod gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn gwybod ei fod angen llety ers dyddiad y ddedfryd, dri mis cyn hynny. Gwrthododd yr YOI ei ryddhau heb gyfeiriad.

Cyrhaeddodd aelod teulu cymeradwy'r YOI am 9am i'w nôl. Am 4pm, dywedwyd wrth yr YOI y canfuwyd llety awdurdod lleol iddo ac fe'i rhyddhawyd. Ni arhosodd Sean yn y llety hwnnw y noson honno.

Dychwelodd 50 o'r bechgyn yn ein sampl i lety awdurdod lleol, a symudodd saith arall i lety annibynnol. Roedd hynny yn  cynnwys llety â chymorth heb ei reoleiddio a llety annibynnol gyda chymorth.[17] Mewn nifer o achosion, nid oedd yr YOT na'r bechgyn yn gwybod beth oedd y cyfeiriad rhyddhau tan yn hwyr iawn yn y ddedfryd, yn aml ar ôl y cyfarfod cyn rhyddhau terfynol, ac ar ôl hynny mewn nifer o achosion. Yn yr achos a nodir uchod, nid oedd y cyfeiriad ar gael tan y dyddiad rhyddhau. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, roedd hynny yn golygu nad oedd y plant yn gwybod ym mhle yn y wlad y byddent yn byw ar ôl eu rhyddhau, heb sôn am gyfeiriad penodol. Mae hynny nid yn unig yn peri ansicrwydd i'r bechgyn, y mae gan nifer ohonynt anawsterau dysgu neu wybyddol fyddai'n golygu y byddai hyn yn llawer mwy heriol, ond nid oedd yr YOTau oedd yn dal yr achosion yn gallu cynllunio a gwneud trefniadau gofal gyda'r YOT oedd yn gwesteio[18] tan y funud olaf un.

Yn achos Plant Sy'n Derbyn Gofal, yr awdurdod lleol sydd yn statudol gyfrifol am ganfod llety addas i'r plentyn hwnnw. Yn ein sampl roedd bron i draean y bechgyn yn derbyn gofal.

Mewn pump o'r achosion yn yr arolygiad yma roedd yr amodau trwydded yn cael eu goruchwylio gan YOT oedd yn wahanol i ardal eu cartref. Dim ond un achos yn y sampl a welwyd gennym pan ddychwelodd plentyn sy'n derbyn gofal i'r llety yr oedd ynddo cyn y ddedfryd. Mae amharodrwydd gan awdurdodau lleol i dalu am lety cyn iddo gael ei ddefnyddio yn golygu nad yw plant yn gwybod ym mhle byddant yn byw tan ychydig wythnosau cyn iddynt gael eu rhyddhau. Mae hon yn sefyllfa ellid ei hosgoi drwy gynllun cenedlaethol a gydlynir yn iawn er mwyn darparu taliadau cadw ar gyfer llety addas o leiaf un mis cyn rhyddhau fel y gellid sefydlu gwasanaethau eraill o gwmpas y cyfeiriad yma.

[17] Mae llety â chymorth yn cyfeirio at lety ble mae staff yn bresennol ar y safle sydd yn darparu cymorth, ac mae hynny ar brydiau yn golygu gwasanaeth 24 awr. Mae llety annibynnol yn cyfeirio at bobl ifanc sydd yn byw ar eu pennau eu hunain, ond bod staff yn ymweld â nhw yn rheolaidd i ddarparu cymorth.

[18] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2018). Protocol Cenedlaethol ar gyfer cyfrifoldeb achosion.

Ymarfer gwael: llety

Dedfrydwyd Shane, oedd yn 17 oed, am 6 mis am dorri ei Orchymyn Adsefydlu Ieuenctid. Nid oedd yn gwybod beth fyddai ei gyfeiriad rhyddhau cyn cael i ryddhau, ond roedd hynny 60 milltir o ardal ei gartref. Roedd wedi dweud drwy gydol yr amser y byddai'n cydymffurfio ag amodau ei drwydded ac yn byw yno am dri mis, ond y byddai yn dychwelyd i ardal ei gartref pan fyddai ei drwydded yn dod i ben.

Arhosodd yn ei lety, ond nid oedd eisiau gwneud cais i unrhyw goleg neu ar gyfer lleoliadau gwaith oherwydd nad oedd yn bwriadu aros yn yr ardal honno. Felly, ar gyfer tri mis ei drwydded ni ymgysylltodd ag unrhyw weithgaredd cyflogaeth nac addysg. Cafodd yr heddlu wybod ei fod wedi dechrau gwerthu cyffuriau yn y lleoliad newydd ble yr oedd yn byw. Pan ddaeth amodau ei drwydded i ben dychwelodd i'w dref ei hun.

Yn ddelfrydol, dylai trefniadau pontio esmwyth fod wedi eu sefydlu rhwng YOT y cartref cyn cystodaeth a'r YOT gwesteio newydd, ond nid yw hynny yn bosibl pan fo lleoliadau yn cael eu canfod yn hwyr iawn. Mae hynny yn golygu nad yw'r person ifanc yn aml yn cyfarfod â'r rheolwr achos gwesteio newydd tan y diwrnod rhyddhau. Ond, bu i ni ganfod un enghraifft o hynny yn cael ei wneud yn dda:

Enghraifft o ymarfer da: cymorth llety parhaus

Norfolk YOT/YOI Wetherby

Roedd Connor yn 17 oed. Mae ganddo anawsterau iechyd meddwl cymhleth. Roedd yn hunan-niweidio yn aml a derbyniodd ddedfryd cystodaeth ar ôl ymosod ar staff proffesiynol oedd yn ceisio rhoi cymorth iddo yn dilyn digwyddiad o hunan-niwed difrifol.

Oherwydd ei anawsterau, fe'i rhoddwyd mewn llety â chymorth i ffwrdd o ardal ei gartref. Roedd yn agosach i ble roedd ei fam yn byw, ond ym mhell o ardal ei gartref gwreiddiol. Gadawyd y lle yn agored iddo ar ôl y ddedfryd gystodaeth, ac aeth staff y llety i ymweld ag ef mewn cystodaeth a mynychu ei gyfarfodydd cynllunio. Aeth y staff i'w nôl ar ddiwrnod ei ryddhau a mynd ag ef i swyddfa YOT, ble cafodd ei oruchwylio gan y rheolwr achos oedd wedi ei oruchwylio cyn y ddedfryd cystodaeth.

## 2.4 Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Yn yr YOIau mae yna wasanaethau addysg, a thimau addysg ac ailsefydlu ar wahân. Mae gan YOTau weithwyr ETE ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i addysgu plant. Rydym eisoes wedi disgrifio yn yr adroddiad interim nad oedd y gwasanaethau a ddarparwyd gan y timau YOI wedi eu hintegreiddio gyda'i gilydd na gyda'r byd y tu allan. Yn bwysicach na hynny, nid oeddent yn trin plant fel unigolion; roeddent yn eu 'ffitio i mewn' i'r hyn oedd ar gael. Ni welsom unrhyw enghraifft o YOT yn herio hynny. Ychydig iawn o weithwyr ETE YOT ymwelodd â'r plentyn mewn cystodaeth neu a weithiodd gyda'r plentyn  er mwyn dechrau neu barhau ag addysg neu hyfforddiant. Adroddwyd am achos gennym yn yr adroddiad interim pan wnaethpwyd y gwaith hwnnw a bod hynny wedi arwain at effaith arwyddocaol.

Dylai anghenion addysg unigol plant gael eu bodloni mewn cystodaeth a dylai lleoliad addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth fod yn barod ar eu cyfer ar adeg eu rhyddhau.

## Enghraifft o ymarfer da: gwaith addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

### YOT Sir Fynwy a Thorfaen/HMPYOI Parc

Roedd Jacob yn 16 oed pan y'i dedfrydwyd a derbyniodd orchymyn cadw a hyfforddi 18 mis am ladrata. Cyn iddo gyflawni ei drosedd, roedd Jacob wedi cael ei feithrin yn amhriodol gan oedolion gwrywaidd, ac o ganlyniad i hynny roedd yn gaeth i gyffuriau. Pan oedd ar fechnïaeth nid oedd yn gallu byw gartref ac fe'i gosodwyd mewn prosiect llety â chymorth; ni chafodd unrhyw gymorth gan ei deulu.

Roedd gwaith addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ystod y gystodaeth yn effeithiol. Dechreuwyd ar hynny yn gynnar yn ystod dedfryd Jacob. Roedd gweithiwr ETE yr YOT yn cysylltu'n rheolaidd a pharhaus â'r darparwr hyfforddiant yr oedd Jacob wedi ei fynychu pan oedd ar fechnïaeth. Roedd Jacob eisiau gweithio yn y maes adeiladu ac roedd ganddo hefyd ddiddordeb mewn coginio a ffitrwydd personol, ac roedd yn hoff iawn o anifeiliaid. Sefydlodd y gweithiwr ETE gynlluniau wrth gefn rhag ofn  na fyddai'r cynllun cychwynnol, sef lle gyda darparwr hyfforddiant, yn llwyddiannus. Hwylusodd yr YOT ryddhad ar drwydded dros dro mewn lloches i anifeiliaid.

Amharwyd ar addysg Jacob, a manteisiodd i'r eithaf ar y cyrsiau a gynigiwyd iddo yn yr YOI. Cwblhaodd gyrsiau llythrennedd a rhifedd. Roedd ei ryddhau yn gynnar yn golygu nad oedd yn gallu sefyll arholiad rhifedd ac roedd yr YOI yn hwyluso'r cyfle iddo gael ei ryddhau am ddiwrnod i sefyll yr arholiad.

Yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl ei ryddhau, dechreuodd Jacob ar ei leoliad yn y maes adeiladu.

O'r 50 o achosion a arolygwyd gennym, dechreuodd darpariaeth ETE yn syth ar ôl rhyddhau dim ond mewn 11 o'r achosion. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hynny, darparodd yr YOT addysg ar adeg rhyddhau drwy ei ddarpariaeth Goruchwyliaeth Cymorth Dwys, ac roedd hynny yn gweithredu fel pont nes bod addysg neu hyfforddiant arall ar gael. Er bod hynny yn ymateb ymarferol mewn perthynas â bodloni anghenion addysg y person ifanc, nid yw hynny yn fuddiol yn yr hirdymor ac nid yw'n gynaliadwy. Roedd yna enghreifftiau o fechgyn yn cwblhau eu cardiau CSCS ar adeg eu rhyddhau, fyddai'n eu galluogi i weithio ar safleoedd adeiladu pan fyddent yn troi'n 18 oed. Petaent wedi gallu cwblhau hynny yn ystod y cyfnod mewn cystodaeth, gellid fod wedi lleihau'r amser yr oeddent wedi ei dreulio heb gyflogaeth.

Roedd deilliannau addysg ar gyfer Plentyn sy'n Derbyn Gofal, yn arbennig y rhai oedd yn cael eu lleoli y tu allan i ardal eu cartref, yn arbennig o wael, ac nid oedd gan yr un o'r bechgyn hynny leoliad addysg yn barod ar adeg eu rhyddhau.

Gwelsom enghreifftiau pan oedd cyfyngiadau diogelwch yr amgylchedd carchar yn atal y bechgyn rhag cael cyfleoedd cyflogaeth ar ôl eu rhyddhau. Roedd un bachgen eisiau gwneud cais am brentisiaeth ar ôl ei ryddhau, ond fe'i hataliwyd rhag gwneud hynny oherwydd bod raid gwneud y cais ar-lein. Mae'n debygol y bydd hynny yn broblem gynyddol wrth i fwy o sefydliadau symud at broses recriwtio ar-lein yn gyfan gwbl, ac nid oes gan garcharorion fynediad at adnoddau ar-lein am resymau diogelwch.

Roedd yna ddiffyg cynlluniau wrth gefn mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, oedd yn golygu nad oedd gan y bobl ifanc unrhyw gynlluniau eraill petai'r cynlluniau gwreiddiol yn methu. Roedd yna hefyd broblemau petai'r person ifanc yn cael ei ryddhau o gystodaeth hanner ffordd drwy flwyddyn coleg. Pan fo diffyg darpariaeth arall yn lleol, gadawyd y person ifanc heb ddim darpariaeth addysg neu hyfforddiant am beth amser.

Enghraifft o ymarfer gwael: darparu gwasanaethau ETE

Roedd Ronnie yn 17 oed pan y'i dedfrydwyd i gystodaeth am ymosod. Trodd yn 18 oed yn ystod ei ddedfryd. Yr ymosodiad oedd ei euogfarn gyntaf, er yr oedd yn hysbys ei fod yn aelod o gang.

Yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol, cytunwyd yn briodol y byddai'n mynd yn ôl adref i fyw gyda'i rieni, oedd yn ei gefnogi'r ariannol. Y brif broblem yn achos Ronnie oedd addysg a hyfforddiant; roedd wedi bod mewn coleg ar un adeg ac wedi cael canlyniadau TGAU da, ond gadawodd y system.

Mynychodd yr YOT yr holl gyfarfodydd cynllunio, a chytuno gydag ef ar raglen lawn a chefnogol ar gyfer ei ryddhau. Roedd hynny yn cynnwys gweithiwr Connexions er mwyn cefnogi ei fynediad i ETE.

Yn anffodus, ni arweiniodd y cynlluniau at weithredu yn ystod y cyfnod cystodaeth. Ni ddaeth ei weithiwr Connexions i'r YOT i gyfarfod ag ef. Ar ôl ei ryddhau, roedd yna oedi o ran argaeledd gwasanaethau. Ni chwblhawyd cais coleg tan bum wythnos ar ôl ei ryddhau.

Nid oedd ganddo incwm chwaith, ac ni ystyriwyd help i wneud cais am fudd-daliadau nes bod hynny yn fater problemus. Effeithiodd hynny ar ei gymhelliant.

Dau fis ar ôl ei ryddhau, arestiwyd Ronnie am drosedd newydd yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau.

## 2.5 Iechyd a llesiant

Mae yna wasanaethau mewnol ac allanol a chymorth ar gael i blant mewn cystodaeth. Ni all y gwasanaethau yma ddadwneud y niwed mae oes o anawsterau wedi ei achosi i'r plant, ond dylent ymdrechu i sicrhau nad oes mwy o niwed yn digwydd iddynt o ganlyniad i ddiffyg help a chefnogaeth.

Yn ein sampl, roedd gan 31 o'r achosion anghenion iechyd mewn cystodaeth, ac aseswyd yr anghenion hynny yn ystod y cyfnod mewn cystodaeth, a chwblhawyd asesiad Offeryn Asesu Iechyd Cynhwysfawr (CHAT) ac asesiad llefaredd ac iaith. Ond, dim ond mewn 13 o'r achosion y cafwyd tystiolaeth bod yr YOT yn darparu cymorth neu ymyrraeth mewn perthynas â'r anghenion yma ar ôl rhyddhau.

Weithiau mae angen tynnu plentyn allan o ardal ei deulu a'i gymuned. Ond, yn yr enghraifft a ganlyn, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod angen lleoli plentyn mor bell oddi wrth ei deulu. Hefyd, ar ôl penderfynu gwneud hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod staff wedi ymdrechu i liniaru effaith hynny drwy sicrhau ei fod yn gwybod i ble roedd yn mynd, ei fod wedi cyfarfod y gweithwyr newydd fyddai'n cefnogi ei iechyd meddwl, a bod trefniadau wedi cael eu gwneud ar gyfer cyfarfod ei deulu.

**Enghraifft o ymarfer gwael: cefnogaeth iechyd a llesiant ar ôl rhyddhau**

Roedd Liam yn 16 oed pan y'i dedfrydwyd i 14 mis mewn cystodaeth.

Yn ystod ei fywyd, roedd wedi bod i mewn ac allan o ofal yr awdurdod lleol, a chyn mynd i gystodaeth roedd wedi bod yn byw mewn llety â chymorth. Roedd eisiau dychwelyd i ardal ei gartref, oherwydd roedd wedi ymrwymo i'w addysg yno ac eisiau bod yn agos at ei deulu a'i gymuned.

Roedd Liam yn un o'r plant hynny na chanfuwyd llety iddo tan ychydig wythnosau cyn ei ryddhau. Ar yr adeg pan yr oedd yn ymddangos y byddai'n cael ei gadw mewn cystodaeth y tu hwnt i'w ddyddiad rhyddhau'n gynnar, a hynny yn gyfan gwbl o ganlyniad i ddiffyg llety, galwodd yr YOI am eiriolwr (o elusen Barnardo's).

Roedd y llety a gafwyd iddo mewn rhanbarth wahanol o'r wlad, filltiroedd oddi wrth ei deulu, ble nad oedd yn adnabod neb. Ni chafodd Liam unrhyw ymweliadau gan y darparwr llety cyn ei ryddhau.

Roedd Liam wedi cael diagnosis o anhwylder straen wedi trawma yn dilyn damwain car, ac aeth i gystodaeth gyda choes wedi ei thorri. Roedd wedi dioddef gyda'i iechyd meddwl am beth amser ac roedd wedi clymu rhwymyn o gwmpas ei wddf yn ei gell cyn hynny. Ond pan fu i ni ei gyfarfod mewn cystodaeth, dywedodd ei fod wedi dechrau teimlo'n llawer tawelach ei feddwl. Roedd gwasanaethau iechyd meddwl mewnol yr YOI wedi gweithio gyda Liam ac roedd yn teimlo eu bod wedi bod yn fuddiol iawn iddo. Roedd yn eu gweld yn wythnosol ac roedd y gwaith yma yn cael ei gefnogi gan ei reolwr achos YOI a'r YOT allanol.

Yn anffodus, ni wnaethpwyd unrhyw drefniadau i barhau â hynny ar ôl ei ryddhau.

Ar adeg ein harolygiad roedd Liam wedi bod ar goll ers peth amser, roedd wedi torri ei amodau trwydded, ac yn unol â hynny roedd y llys wedi cyhoeddi warant i'w arestio.

## 2.6 Camddefnyddio sylweddau

Nodwyd bod camddefnyddio sylweddau yn broblem tra bod y person ifanc mewn cystodaeth mewn 39 o'r 50 achos a arolygwyd gennym. Yn y rhan fwyaf o'r achosion yma atgyfeiriwyd y person ifanc at y gwasanaethau cystodaeth mewnol. Yn aml effeithiwyd ar ymyriadau gan anawsterau gweithdrefnol olygai na ellid symud bechgyn o'u hunedau i fynychu apwyntiadau ar gyfer ymyriadau camddefnyddio sylweddau.

Roedd yna enghreifftiau o ddarpariaeth effeithiol gan weithwyr camddefnyddio sylweddau mewn timau cymunedol. Roedd hynny yn cynnwys ymweld â'r bobl ifanc mewn cystodaeth a'u cefnogi yn ystod y cyfnod cystodaeth ac yna darparu'r cymorth yma yn syth ar ôl eu rhyddhau.

**Enghraifft o ymarfer da: cymorth camddefnyddio sylweddau parhaus**

**Sir Fynwy a Thorfaen/HMPYOI Parc**

Roedd Thomas yn fachgen 17 oed oedd yn destun gorchymyn cadw a hyfforddi 18 mis. Dechreuodd ddefnyddio cyffuriau ar ôl iddo gael ei feithrin yn amhriodol gan ddynion hŷn, a phan y'i dedfrydwyd roedd yn gaeth i grac cocên. Roedd eisiau rhoi'r gorau i gymryd cyffuriau drwy ymwrthod, ac roedd yn gallu gwneud hynny mewn cystodaeth. Roedd y tîm camddefnyddio sylweddau mewn cystodaeth yn cadw llygaid arno ac yn ei gefnogi. Hefyd roedd y tîm camddefnyddio sylweddau cymunedol yn ymweld ag ef yn rheolaidd, gan ddarparu cymorth a chyswllt â'r tîm cystodaeth.

Ar ôl ei ryddhau, rhannwyd gwybodaeth a chynigiodd y tîm camddefnyddio sylweddau gymorth parhaus. Ar adeg yr arolygiad, roedd Thomas wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau ers peth amser. Nid oedd wedi aildroseddu ac roedd ar leoliad gwaith.

Roedd yna dystiolaeth o rannu gwybodaeth rhwng y darparwyr ystâd cystodaeth a'r gymuned. Ond achoswyd i hynny fod yn fwy heriol o ganlyniad i beidio â gwybod y cyfeiriad rhyddhau ar gyfer y person ifanc neu ble yn y wlad y byddai'r cyfeiriad hwnnw. Roedd hynny yn golygu bod atgyfeiriadau at ddarparwyr camddefnyddio sylweddau yn cael eu cwblhau yn hwyr iawn neu ddim o gwbl. Yn y sampl a arolygwyd, canfuwyd bod gwaith ar gamddefnyddio sylweddau ond yn cael ei ddarparu mewn 22 o'r 50 o achosion ble ddylai gael ei ddarparu.

**Enghraifft o ymarfer gwael: camddefnyddio sylweddau**

Roedd Zac yn fachgen 18 oed a ddedfrydwyd i wyth mis mewn cystodaeth am droseddau lladrata. Roedd ganddo hanes hir o gysylltiad â gofal cymdeithasol plant ac roedd wedi derbyn gofal o'r blaen. Cafodd wybod am ei gyfeiriad rhyddhau ddau ddiwrnod cyn iddo gael ei ryddhau o gystodaeth.

Oherwydd bod y cyfeiriad newydd mewn awdurdod ffiniol, cadwodd yr YOT cartref yr achos, ond bu oedi o ran atgyfeirio at y tîm camddefnyddio sylweddau yn yr ardal newydd, ac nid oedd y tîm camddefnyddio sylweddau yn ardal y cartref yn gweithio ar draws ffiniau.

Bu i dîm camddefnyddio sylweddau yr ardal newydd ymgymryd â'r achos bythefnos ar ôl ei ryddhau. Yn anffodus, erbyn hynny, roedd eisoes yn defnyddio cyffuriau ac alcohol eto. Ar adeg yr arolygiad, roedd wedi gadael ei lety ac roedd ar goll, a chyhoeddwyd warant i'w arestio.

## 2.7 Teuluoedd

Mae teuluoedd yn sylfaen allweddol ar gyfer gwaith ailsefydlu, ac yn ein harolygiad dychwelodd 30 o'r 50 person ifanc i fyw at eu teuluoedd. Os nad oedd y person ifanc yn byw gyda'i deulu, gallai'r teulu fod yn ffactor allweddol o hyd o ran darparu cefnogaeth ailsefydlu. Ond mewn rhai achosion gall teuluoedd  gynyddu ffactorau risg mewn perthynas â throseddu, a gall y bobl ifanc gaiff eu rhyddhau achosi risg i'r teuluoedd y maent yn dychwelyd atynt.

Gwahoddir aelodau teulu i fynychu cyfarfodydd cynllunio dedfryd, ond gwelsom mai dim ond 21 o aelodau teulu a fynychodd y cyfarfodydd. Nid yw'n eglur pam na fu i'r mwyafrif fynychu, er y gallai pellter i'r YOI a gofal plant am frodyr neu chwiorydd fod yn rhwystr rhag mynychu'r cyfarfodydd yma. Mewn 41 o'r 50 achos, gwelsom dystiolaeth bod YOTau yn ceisio hwyluso presenoldeb teuluoedd yn y cyfarfodydd a darparu cefnogaeth i deuluoedd  tra bod eu person ifanc mewn cystodaeth.

Roedd teuluoedd hefyd yn bwysig o ran nôl y bobl ifanc o gystodaeth. Gwnaethpwyd hynny gan aelodau teulu mewn 27 o'r 50 achos. Yn y rhan fwyaf o'r achosion eraill, gwnaethpwyd hynny gan staff YOT.

| Enghraifft o ymarfer da: teuluoedd<br>Gogledd Tyneside YOT/Wetherby Keppel YOI |
| --- |
| Roedd Dylan yn fachgen 17 oed a ddedfrydwyd i bedwar mis mewn cystodaeth am dorri ei Orchymyn Adsefydlu Ieuenctid. Roedd yn byw gyda'i nain a'i daid, oedd wedi ei gefnogi ac wedi mynychu'r holl gyfarfodydd cynllunio ailsefydlu. Roedd ei ymddygiad yn anodd iddynt ei reoli ac roedd yn cael ei asesu ar gyfer syndrom alcohol y ffoetws. Roedd gofal cymdeithasol plant a'r YOT wedi rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i nain a thaid Dylan mewn perthynas â rheoli ei ymddygiad. Roeddent wedi llunio cynllun teulu gyda'i nain a'i daid a'r YOT fel y gallent adnabod arwyddion bod strategaethau ymdopi Dylan yn dirywio, oedd yn golygu y byddai'n wynebu mwy o risg o aildroseddu. Roedd yna gynllun ar y cyd i'w nain a'i daid ei roi ar waith petai hynny yn digwydd, oedd yn cynnwys strategaethau ymddygiad iddyn nhw, a hefyd hysbysu'r YOT a gofal cymdeithasol plant. |

Ond nid oedd y gwaith gyda theuluoedd yr un mor adeiladol yn achos pawb.

| Enghraifft o ymarfer gwael: cefnogaeth i rieni |
| --- |
| Roedd Florin, 17 oed, yn dod o Lundain. Symudwyd ei deulu o Lundain i ogledd Lloegr am resymau diogelwch oherwydd ei gysylltiad â gangiau. Fe'i gosodwyd yng ngofal yr awdurdod lleol cyn ei gystodaeth, oherwydd ei fod yn mynd ar goll o gartref y teulu yn gyson. Ar ôl ei ryddhau, fe'i adalwyd i gystodaeth oherwydd iddo fethu â chydymffurfio â'i drwydded.<br><br>Nid oedd unrhyw asesiad gan yr YOT ar y ffeil, felly roedd yna risgiau a nodweddion bregus arwyddocaol nad oeddent wedi cael eu harchwilio neu nad oeddent yn hysbys, er bod gwybodaeth gan y llys wrth ddedfrydu yn awgrymu bod Florin wedi dioddef problemau iechyd meddwl ac wedi ceisio lladd ei hun fwy nag unwaith. Pan siaradwyd ag ef mewn cystodaeth, roedd yn ymddangos yn ddidaro a gostyngedig. Dywedodd wrthym ei fod 'wedi arfer bod yn y carchar'.<br><br>Nid oedd mam Florin yn siarad Saesneg ac roedd gan ei dad broblemau iechyd. Nid oedd y naill na'r llall yn gallu ymweld ag ef mewn cystodaeth.<br><br>Dywedodd tad Florin wrthym nad oedd wedi gallu cael gwybodaeth gan yr YOI am sut oedd ei fab yn ymdopi oherwydd anawsterau cyfathrebu. O ganlyniad i hynny, nid oedd wedi ymweld â'i fab, er y dymunai wneud hynny. Ni chysylltodd nac ymwelodd yr un o'r asiantaethau oedd yn gweithio â Florin â'r teulu tra bod Florin mewn cystodaeth. Dywedodd tad Florin wrthym nad oedd yn gwybod bod help ar gael ac nad oedd neb wedi cynnig unrhyw help. |

Yn gyffredinol, ychydig iawn o ddefnydd a wnaethpwyd o ROTL neu ymweliadau estynedig â theuluoedd er mwyn meithrin a chynnal perthnasoedd gyda theuluoedd. Roedd nifer o'r perthnasau o dan straen cyn y ddedfryd o gystodaeth oherwydd ymddygiad y person ifanc, a gallai gymryd ymdrech sylweddol i ailadeiladu perthynas gadarnhaol a gofalgar.

Wrth gwrs, nid yw pob perthynas deuluol yn gadarnhaol i'r bobl ifanc. Gwelsom enghreifftiau pan fo aelodau teulu yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol, ac roedd yn bosibl i'r perthnasoedd yma gynyddu risg y person ifanc o aildroseddu.

## 2.8 Cyllid, budd-daliadau a dyled

Gyda bron i draean o'r sampl a arolygwyd yn troi'n 18 oed yn ystod cyfnod yr arolygiad, roedd cyllid, budd-daliadau a dyled yn gynyddol bwysig, oherwydd byddai'r person ifanc yn aml yn hawlio budd-daliadau ar ôl ei ryddhau. Yn anffodus, ychydig iawn o ddarpariaeth ar gyfer hyn a welsom, ac roedd yn cymryd amser diangen o faith i fudd-daliadau gael eu trefnu mewn nifer o achosion.

Mewn nifer cyfyngedig o achosion a arhosodd gyda’r YOT ar ôl iddynt fod yn 18 oed, yn aml iawn nid oedd gan yr YOT lawer o wybodaeth ynghylch sut oedd y system fudd-daliadau yn gweithio ar gyfer y grŵp yma o bobl.

Nodwyd bod materion ariannol yn broblem mewn cystodaeth i 28 o’r 50 achos a arolygwyd, ac mewn dim ond 16 o’r achosion yma y darparwyd ymyrraeth a chefnogaeth er mwyn mynd i’r afael â’r problemau hyn.

| Enghraifft o ymarfer gwael: materion ariannol |
| --- |
| Roedd Michael yn fachgen 18 oed a ddedfrydwyd i ddau gyfnod o bedwar mis mewn cystodaeth am droseddau o wir niwed corfforol. Fe'i rhyddhawyd i gyfeiriad ei frawd. Roedd ganddo gerdyn dinasyddiaeth pan y’i rhyddhawyd, a drefnwyd gan yr YOI, ond nid oedd ganddo unrhyw ffordd arall o brofi ei hunaniaeth. Nid oedd y banc yn derbyn yr ID yma, a chymerodd chwe wythnos i drefnu ei ID fel y gellid agor cyfrif banc iddo. Heb gyfrif banc, nid oedd yn gallu trefnu i dderbyn Credyd Cynhwysol, felly am y chwe wythnos cyntaf ar ôl ei ryddhau roedd yn gwbl ddibynnol ar ei frawd hŷn am fwyd ac arian. |

## 2.9 Casgliadau a goblygiadau

Yn arolygiad 2015, adroddwyd gennym fod deilliannau ailsefydlu ar gyfer plant yn wael.

Yn ein adroddiad interim daethom i gasgliad bod plant yn gwneud yn dda yn y gymuned  ble bu gwaith ailsefydlu effeithiol. Roeddem yn cydnabod nad yw gwaith ailsefydlu da yn gwarantu y bydd plant yn gwneud yn dda, ond mae’n cynnig y cyfle gorau iddynt newid eu hymddygiad troseddgar a bod yn aelodau cynhyrchiol o’u cymunedau. Pan welsom waith ailsefydlu gwael neu ddim gwaith o gwbl, roedd yn amlwg bod y plant hynny yn wynebu mwy o risg o fethu â gwneud y newidiadau fyddai’n gwella eu bywydau a bywydau y rhai o’u cwmpas.

Yn anffodus nid ydym wedi gweld llawer o waith ailsefydlu da. Gwelsom brosesau wedi eu sefydlu, cyfarfodydd yn cael eu mynychu ac atgyfeiriadau yn cael eu gwneud, ond ychydig iawn oedd yn debygol o wneud gwahaniaeth i ddeilliannau, ac mewn rhai achosion gwelsom esgeulustod difrifol mewn perthynas â buddiannau plentyn.

Gyda rhai eithriadau, roedd deilliannau plant a oedd yn gadael cystodaeth yn dal yn wael.

# 3. Gwaith ailsefydlu ieuenctid gan asiantaethau cymunedol

## 3.1 Rôl Asiantaethau cymunedol mewn ailsefydlu

### Cyflwyniad

Yn ystod y cyfnod cystodaeth, mae gan asiantaethau allanol rôl allweddol i'w chwarae o ran cynllunio a pharatoi plentyn ar gyfer ailsefydlu. Dylai honno fod yn rôl weithgar. Dylai'r YOT yn arbennig barhau i weithio gyda'r plentyn yn ystod y cyfnod cystodaeth, nid yn unig er mwyn cynllunio ar gyfer rhyddhau, ond hefyd er mwyn sicrhau bod ymyriadau ac addysg yn yr YOI yn bodloni anghenion a risgiau penodol y plentyn unigol. Dylai rheolwr achos yr YOT gefnogi a herio rheolwr achos yr YOI (ac fel arall).

Hefyd, dylid gweithio ar sicrhau bod y plentyn yn parhau i fod â chysylltiad â'r byd y tu allan a bod pa bynnag wasanaethau sydd eu hangen wrth adael cystodaeth ar gael yn syth. Nid yw gwaith ailsefydlu yn dechrau ar adeg rhyddhau nac ychydig ynghynt. Mae'n dechrau ar ddyddiad y ddedfryd i gystodaeth a dylai'r plentyn wybod bod ymdrechion yn cael eu gwneud yn y gymuned er mwyn paratoi ar gyfer eu rhyddhau'n llwyddiannus. Dylai'r gwaith o drefnu amserlen yr wythnos ryddhau ddechrau yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol.

Mae'r term 'dedfryd di-dor' yn golygu nad oes yna stopio a chychwyn. Mae'r gwaith yn cael ei hysbysu gan orffennol y plentyn ac mae'n cyfrannu tuag at ei ddyfodol. Mae'n benodol ar gyfer pob plentyn unigol - ei anghenion a'r risgiau mae'n eu hachosi iddo ef ei hun ac i bobl eraill.

## 3.2 Prosesau

Pan fo plentyn yn cael ei ddedfrydu i gystodaeth mae'n destun nifer o gyfarfodydd ble cynllunnir ei ddedfryd a nodir ei anghenion ailsefydlu.[199]

Bydd y tîm gwaith achos YOI mewnol yn cydlynu'r gwaith mewnol a wneir yn ystod cystodaeth, a dyna fydd y cyswllt â'r byd y tu allan. Disgrifiodd ein hadroddiad interim waith timau gwaith achos YOI ac asiantaethau eraill. Mae rheolwr achos yr YOT yn mynychu'r cyfarfodydd cynllunio ac adolygu sydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod cystodaeth, yn dibynnol ar hyd y ddedfryd.[19] Dylai asiantaethau eraill sydd yn ymwneud ag ailsefydlu'r plentyn fynychu'r cyfarfodydd yma hefyd, oherwydd mai rhain yw'r prif ysgogydd ar gyfer helpu'r plentyn i ailsefydlu'n llwyddiannus. Dylai'r rhain gynnwys gofal cymdeithasol plant, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAHMS), gwasanaethau a darpariaeth ETE cymunedol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, mentora ac unrhyw wasanaethau eraill all helpu'r plentyn. Nid yw rheolwr achos yr YOT yn amnewidyn am yr holl asiantaethau eraill.

Hefyd, oes bydd y plentyn yn troi'n 18 oed mewn cystodaeth, dylai gwasanaethau oedolion fod yn bresennol hefyd, *o ddechrau'r ddedfryd*, er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer rhyddhau, ond hefyd er mwyn parhau i weithio gyda'r plentyn yn ystod y cyfnod cystodaeth. Nid gwasanaethau prawf i oedolion yn unig yw'r rhain; gallent hefyd gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau tai a gadael gofal, ac eraill.

Ni ddylai gwaith ailsefydlu gael ei gyfyngu i gyfarfodydd. Dylai fod yn weithgar a dylid gweld cynnydd *rhwng* cyfarfodydd. Mae'n hanfodol bod y rhai sydd yn gweithio gyda'r plentyn yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu gydag ef y *tu allan* i gyfarfodydd ffurfiol, yn ogystal ag eirioli ar ei ran

---

[19] Gweler Atodiad A

[20] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2019). *Cystodaeth ac ailsefydlu: adran 7 canllawiau rheoli achos.*

yn y cyfarfodydd. Yn achos rhai plant, ymweliadau proffesiynol yw'r oll maent yn ei gael. Dylai'r YOT hyrwyddo a hwyluso cyswllt rhieni rheolaidd.

Yn olaf, rheolwr achos yr YOT, neu'r goruchwyliwr prawf os trosglwyddwyd yr achos i wasanaethau oedolion, sydd yn gyfrifol yn y pen draw am gydlynu'r ddarpariaeth ar adeg rhyddhau.

**Ein canfyddiadau**

## 3.3 Asesu

Roedd yr asesiadau a ddarparwyd i'r YOI gan YOTau o ansawdd digon da yn gyffredinol. Ond nid oedd yr YOIau yn defnyddio'r wybodaeth hon bob amser. Pan fo hynny'n wir, yn anaml y cafwyd tystiolaeth bod rheolwyr achos yr YOT, oedd yn aml wedi cynnal yr asesiad, yn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn cyfarfodydd cynllunio. Yn anaml yr ystyriwyd anghenion unigol wrth gynllunio ymyriadau YOI, ac yn anaml y trafodwyd y risg o niwed a aseswyd.

Nid oedd YJAF, y gronfa ddata y dylid ei defnyddio i hwyluso rhannu a chyfnewid gwybodaeth rhwng YOIau a YOTau, yn cael ei defnyddio yn llawn ar draws YOTau. Bu i ni siarad ag un rheolwr achos YOT nad oedd erioed wedi clywed amdani. Mewn rhai achosion, roedd hynny yn golygu bod sefydliadau yn gweithio ar sail gwahanol asesiadau, ac nid oedd pawb oedd yn ymwneud â'r plentyn yn gwybod holl fanylion ei amgylchiadau.

## 3.4 Cynllunio

Roedd prosesau cynllunio wedi eu sefydlu yn yr holl YOIau. Yn gyffredinol roedd y cyfarfodydd cynllunio yn cael eu cynnal yn amserol. Cynhyrchwyd cynlluniau ac roedd plant yn dilyn rhaglenni addysg a rhaglenni eraill yn y sefydliad. Roedd yna bresenoldeb da mewn cyfarfodydd cystodaeth gan reolwyr achos YOT; ond roedd presenoldeb staff eraill YOTau - gweithwyr ETE neu CAMHS er enghraifft - yn llawer mwy anghyson. Roedd presenoldeb rhieni hefyd yn anghyson ac nid oedd pob YOT wedi gwneud ymdrech i helpu rhieni i fynychu neu i fod yn rhan o'r gwaith cynllunio.

Roedd rhai cyfarfodydd cynllunio wedi cael eu hoedi neu eu torri'n fyr oherwydd problemau gweithdrefnol oedd yn golygu bod y bechgyn yn cyrraedd y cyfarfodydd yn hwyr. Roedd staff YOT yn aml wedi teithio ymhell i fynychu'r cyfarfodydd yma ac roeddent yn rhwystredig pan oedd y cyfarfodydd yma yn cael eu torri'n fyr. Gwelsom un cyfarfod cynllunio a gynhaliwyd ar yr uned drwy fflap drws oherwydd nad oedd yn bosibl symud y bachgen i'r ystafell gyfarfod briodol.

Mewn nifer fechan o achosion, gwelsom gynlluniau rhagorol gan YOTau a gwaith caled yn ystod y cyfnod cystodaeth er mwyn paratoi ar gyfer rhyddhau'r plentyn. Ond, roedd cyfran fawr o'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar broses. Yn rhy aml, roedd yna ddiffyg gwir ymgysylltu ystyrlon a syniadau dychmygus ynghylch beth fyddai'n fuddiol i'r plentyn a sut allai'r cyfnod hwn gyfrannu at ei ddyfodol. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd ar gael o reolwr achos yr YOT yn eirioli dros blant, yn pwyso am yr ymyriadau priodol, neu'n bwrw ymlaen â chyrsiau. Roedd hynny yn syndod o ystyried bod 80 y cant o reolwyr achos YOT a gyfwelwyd wedi dweud wrthym eu bod yn hyderus y gallent wneud hynny.

Yn rhy aml roedd staff YOI a YOT yn oddefol, yn fodlon derbyn bod raid i'r plentyn 'ffitio i mewn' i gyfundrefn yr YOT, ac na allai gwaith ystyrlon ddechrau tan ar ôl rhyddhau'r plentyn.

Roedd y cynlluniau a gynhyrchwyd yn rhy aml yn dilyn fformiwla ac yn cael eu gyrru gan adnoddau ac wedi eu hanelu at lenwi amser y plentyn yn ystod ei amser mewn cystodaeth. Fe'u rhoddwyd ar y system yn dilyn cyfarfod cynllunio ac ni chyfeiriwyd atynt eto tan y cyfarfod cynllunio nesaf. Nid oeddent yn canolbwyntio ar ailsefydlu. Fe'u defnyddiwyd er mwyn cynllunio ar gyfer y cyfnod cystodaeth a dim ond gwefus-wasanaeth a roddwyd i baratoi ar gyfer rhyddhau a gwaith ar ôl hynny.

Roedd y cynllunio ar gyfer ailsefydlu yn dechrau yn rhy aml yn y cyfarfod cyn rhyddhau, deg diwrnod cyn rhyddhau, pan oedd yn rhy hwyr i wneud unrhyw waith ystyrlon. Roedd hynny yn

golygu bod y cynllunio yn digwydd yn rhy aml *ar ôl* rhyddhau, yn ystod yr wythnos gyntaf yn y gymuned, ac roedd hynny yn golygu bod y plentyn yn cyfarfod â phobl newydd a oedd wedyn yn dechrau asesiad arall.

Yn un o'r YOIau, cynigiwyd y byddai'n ddefnyddiol cael offeryn cynllunio rhyddhau penodol fyddai, yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol, yn canolbwyntio'n syth ar yr wythnos ar ôl rhyddhau. Byddai hynny yn dweud wrth y person ifanc gyda phwy y byddai'n cyfarfod, ble fyddent yn cyfarfod a faint o'r gloch fyddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal, ar ffurflen oedd yn hawdd ei deall.

## 3.5 Ymyriadau mewn cystodaeth

Mae'r term 'ymyriadau' yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau, y tu mewn a thu allan i'r YOI, a gallent gynnwys dod i adnabod y plentyn a sefydlu perthynas weithio, neu weithio gyda'r teulu neu asiantaethau eraill.

Mae modd dadlau mai'r ymyrraeth bwysicaf gan asiantaethau allanol, i'r plant sydd ei angen, yw darparu llety addas a diogel yn amserol. Nid yr YOT sydd yn gyfrifol am hynny. Gwasanaethau gofal cymdeithasol plant sydd yn gyfrifol am darparu llety i blant na allant fyw adref. Pan fo pobl ifanc yn troi'n 18 oed mewn cystodaeth, mae'r darlun yn fwy cymhleth, ond efallai mai gofal cymdeithasol i blant sydd yn dal yn gyfrifol o dan ddeddfwriaeth gadael gofal. O'r 50 o achosion yr arolygwyd gennym, barnwyd gennym bod 37 wedi bod angen mewnbwn gan wasanaethau gofal cymdeithasol, a dim ond chwech o'r rhain oedd wedi derbyn help digonol tuag at eu hanghenion ailsefydlu.

Roedd yn ymddangos bod gwaith a wnaed gan YOTau yn ystod y cyfnod cystodaeth yn dibynnu ar yr YOT penodol, yn hytrach nag anghenion neu risgiau'r plentyn. Rydym wedi rhoi diffiniad eang i ymyriadau, felly er enghraifft gallai ymyrraeth llety olygu hwyluso ROTL i gyfarfod darparwr llety yn y gymuned neu helpu i lenwi ffurflenni cais am dai. Nid oedd raid i'r ymyriadau fod yn sesiynau ffurfiol.

O blith yr achosion yr adolygwyd gennym, roedd y canrannau o blant y gweithiodd YOTau yn effeithiol gyda nhw mewn cystodaeth, mewn perthynas â meysydd anghenion/risgiau penodol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Sefyllfa ariannol** | **14 o'r 50 achos** |
| **Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth** | **18 o'r 50 achos** |
| **Camddefnyddio sylweddau** | **10 o'r 50 achos** |
| **Iechyd corfforol a meddyliol** | **10 o'r 50 achos** |
| **Pellter** | **17 o'r 50 achos** |
| **Risg o niwed** | **15 o'r 50 achos** |

Fel y disgrifiwyd yn ein adroddiad interim, nid oedd y gwaith a wnaethpwyd yn yr YOIau yn aml yn bodloni anghenion y plentyn, felly roedd yn siomedig nad oedd asiantaethau cymunedol yn eu bodloni ychwaith. Ar gyfer rhai YOTau, mae'r pellter daearyddol yn rhwystr rhag gweithio wyneb yn wyneb â'r plant. Gwelsom ychydig o ymdrechion i weithio'n greadigol o dan yr amgylchiadau yma. Yn ddelfrydol, dylai asiantaethau cystodaeth a chymunedol gydweithio er mwyn penderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwaith. Ni ddylai ffiniau asiantaethau anhyblyg ddylanwadu ar hynny a dylai asiantaethau herio ei gilydd i ddarparu gwell gwasanaethau i'r plentyn.

Enghraifft o ymarfer da: cydweithio a herio ar draws asiantaethau

Southend YOT/Cookham Wood YOI

Derbyniodd Frank, 17 oed, ddedfryd o bedwar mis mewn cystodaeth. Roedd wedi bod yn blentyn oedd yn derbyn gofal ers yr oedd yn 11 oed, felly roedd angen i ofal cymdeithasol plant ganfod llety iddo.

Gweithiodd rheolwyr achos YOT a YOI gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaethau yr oedd Frank eu hangen. Roedd rheolwr achos yr YOI yn teimlo nad oedd digon o gynnydd wedi ei wneud o ran canfod llety, a chyfeiriodd achos Frank at eiriolwr annibynnol er mwyn ei alluogi i herio'r penderfyniadau oedd yn cael eu gwneud gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant. Pan fethodd yr YOI â darparu gwasanaethau addysg ac iechyd, gan nodi mai'r ddedfryd fer oedd y rheswm, heriwyd y penderfyniad hwnnw gan reolwr achos yr YOT a derbyniodd Frank ddarpariaeth addysgol dda. Ysgrifennodd rheolwr achos yr YOT lythyrau misol at Frank yn ei annog i ddefnyddio'r cyfleoedd ac i afael mewn addysg.

Mae yna raglenni cyn rhyddhau penodol sydd yn cael eu darparu mewn cystodaeth; ond nid oedd yr un plentyn yr arolygwyd eu hachosion wedi mynychu un. Gyda rhai eithriadau, ni chanfuwyd llawer oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ailsefydlu neu oedd wedi eu hanelu at baratoi ar gyfer rhyddhau. Nid oedd llawer o dystiolaeth bod unrhyw un o reolwyr achos yr YOT yn eirioli neu yn pwyso am ymyriadau yn yr YOI oedd yn bodloni anghenion ailsefydlu.

Adolygwyd y gwaith yr oedd yr YOT wedi ei wneud gyda phobl ifanc ar ôl eu rhyddhau o ran materion penodol oedd yn berthnasol iddyn nhw. Bu i ni ganfod ymyriadau oedd wedi eu darparu i'r bobl ifanc yn y meysydd canlynol:

| | |
|---|---|
| **Llety** | **22 o'r 50 achos** |
| **Sefyllfa ariannol** | **16 o'r 50 achos** |
| **Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth** | **20 o'r 50 achos** |
| **Iechyd corfforol a meddyliol** | **6 o'r 50 achos** |
| **Camddefnyddio sylweddau** | **15 o'r 50 achos** |

## 3.6 Adeg rhyddhau

Pan na threfnwyd llety addas a diogel i blant o fewn cyfnod rhesymol cyn rhyddhau, roedd hynny yn effeithio ar argaeledd y gwasanaethau cymorth eraill. Hyd yn oed pan oedd y rhain ar gael, roedd y plant angen amser i sefydlu perthnasoedd gwaith. Dywedodd un wrthym ei fod yn teimlo "fel parsel". Ni welsom unrhyw drafodaeth na hyd yn oed gydnabyddiaeth o effaith emosiynol anfon plentyn i lety newydd ac adnabod neb yno. Disgwylid i'r plant dderbyn y sefyllfa. Nid oedd y posibilrwydd o deimlo'n unig wedi cael sylw yn unrhyw un o'r cynlluniau a arolygwyd gennym nac yn y gwasanaeth a ddarparwyd ar yr adeg rhyddhau.

Roedd staff YOT a staff asiantaethau cymunedol eraill yn gweithio gyda phlant yn yr un modd ag yr oeddent yn goruchwylio plant oedd yn destun gorchymyn cymunedol i raddau. Ni welsom unrhyw waith penodol oedd yn ystyried y trawma posibl a achosir gan gystodaeth.

Ychydig o blant yn unig oedd yn gallu derbyn cwnsela yn syth, pan oedd hynny yn berthnasol, neu gael mynediad at gymorth camddefnyddio sylweddau. O blith y plant oedd yn mynd allan i lety newydd, ni welsom yr un oedd wedi cyfarfod â staff y llety cyn cael eu rhyddhau a dim un y defnyddiwyd eu ROTL i baratoi ar gyfer rhyddhau. Roedd gormod o YOTau yn dechrau cynllunio gwasanaethau yn ystod yr wythnos ar ôl rhyddhau.

Roedd nifer y plant oedd yn dechrau neu'n cael mynediad at ddarpariaeth ETE yn ystod yr wythnos ryddhau yn isel. O blith yr achosion a arolygwyd gennym, dim ond 11 o'r plant oedd wedi dechrau ETE yn ystod yr wythnos ryddhau. Roedd peth o'r ETE yn rhan o ddarpariaeth YOT yn hytrach nag addysg prif lif neu raglenni hyfforddiant cyflogaeth, ac felly roedd hynny yn annhebygol o arwain at goleg neu waith. Nid oedd y cyfan o ansawdd da nac yn cael eu cynnal am fwy nag ychydig wythnosau.

Ychydig iawn o ddilyniant neu barhad a welwyd mewn perthynas â'r gwaith a wnaed mewn cystodaeth. Weithiau roedd tystysgrifau a chymwysterau yn cael eu dal ar ffeil, ond mae'n ymddangos mai ychydig iawn o sylw a roddwyd iddynt. Roedd y gwaith a wnaed mewn cystodaeth yn cael ei wneud mewn gwactod ac nid oedd yn cyfrannu at daith barhaus o addysg neu hyfforddiant.

Yn rhy aml, nid oedd gwaith defnyddiol mewn cystodaeth, yn arbennig o ran cymorth iechyd meddwl, yn cael ei barhau. Roedd y bwlch mewn gwasanaeth yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl rhyddhau yn ddatgymhellol i blant oedd wedi canolbwyntio ar gael eu rhyddhau gan feddwl y byddai pethau'n wahanol - nid felly yr oedd hi.

Roedd yna enghreifftiau pan oedd YOTau yn ceisio cysylltu'r dedfrydau cystodaeth a chymunedol. Yn Derby roedd yna banel craffu ar gystodaeth oedd yn goruchwylio'r holl ddedfrydau cystodaeth er mwyn sicrhau bod ymyriadau priodol wedi eu sefydlu mewn cystodaeth ac yn y gymuned. Roedd yna swyddog cystodaeth ar y panel yma oedd yn gallu cael mynediad at wybodaeth carchardai, ac felly roedd yn gallu diweddaru'r panel mewn amser real a rhannu gwybodaeth gyda'r ystâd cystodaeth.

### Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL)

Yn ein hadroddiad interim, disgrifiwyd diffyg ROTL pwrpasol. Ac eithrio tri achos, nid oedd YOTau yn chwarae unrhyw ran yn narpariaeth ROTL yn yr achosion a arolygwyd gennym. Roedd staff YOI a YOT yn gyfranogwyr goddefol mewn proses. Mewn un achos a welsom, roedd yr YOT wedi cofnodi nad oedd y bachgen wedi gwneud cais am ROTL a bod hynny wedi 'arbed y gwaith papur'. Dywedwyd wrth y plentyn pryd y byddai'n gymwys ac ni ddigwyddodd llawer mwy. Ni chydnabuwyd y dylai ROTL chwarae rhan bwysig wrth baratoi plentyn ar gyfer ei ryddhau. Ystyriwyd hynny yn syml fel un o nifer o bethau yr oedd angen sôn amdanynt wrth y plentyn. Cyfeiriwyd at y mater yn y cyfarfod cynllunio ac yna anghofiwyd amdano i raddau helaeth oni bai bod y plentyn yn sôn amdano. Roedd p'un a oedd yn digwydd o gwbl yn dibynnu ar y diwylliant yn yr YOI; nid oedd hi bob amser yn eglur ar beth oedd y penderfyniad i ganiatáu ROTL yn seiliedig.

## 3.7 Amodau trwydded

Yn gyffredinol roedd amodau trwydded yn briodol ac yn addas ar gyfer rheoli ffactorau risg. Gwelsom beth defnydd creadigol y gyrffyw a rhai amodau trwydded oedd wedi eu teilwra'n fanwl er mwyn bodloni anghenion unigol y plentyn. Ond, gadawyd y gwaith o rannu'r rhain i'r cyfarfod cyn rhyddhau, ac roedd hynny yn rhy hwyr ar gyfer dechrau'r drafodaeth. Gwelsom beth gwrthdaro pan ddywedwyd wrth blant y byddent yn destun amodau mwy llym nag yr oeddent wedi cael eu harwain i feddwl. Roedd hynny ar brydiau yn arwain at ymddygiad gwael yn y carchar.

Ym mhob achos o ailsefydlu, dylai trafodaeth am amodau trwydded ddechrau ar ddechrau'r ddedfryd a pharhau drwy gydol y ddedfryd er mwyn ystyried amgylchiadau newidiol.

## 3.8 Pontio

O blith y 50 achos a arolygwyd gennym, trodd 10 o blant yn 18 oed mewn cystodaeth ac roedd rhai o'r rhai hynny yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau prawf oedolion. Daeth y plant yma yn destun goruchwyliaeth estynedig o ganlyniad i'r *Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr* (2014)[21]

Yn ein hadroddiad interim, disgrifiwyd ymarfer da pan ddechreuodd y gwaith pontio yn gynnar. Roedd goruchwyliwr prawf wedi dod i'r YOI i gyfarfod â'r plentyn, ac roedd gwasanaethau wedi'u sefydlu ar gyfer y dyddiad rhyddhau. Ond mewn rhai achosion, roedd yr ymarfer yn wael, ac wrth drafod gyda staff prawf yn y gymuned daeth yn amlwg nad oedd yr un ohonynt wedi cael eu hyfforddi yn y maes gwaith yma.

Mae prosesau cynllunio dedfryd ar gyfer plant yn arwyddocaol wahanol i gynlluniau ar gyfer oedolion, ac nid oedd rhai o'r staff prawf a welsom yn ymwybodol o'r gwahaniaeth. Felly roeddent wedi methu â chyflawni hyd yn oed y pethau elfennol, megis mynychu cyfarfodydd cynllunio. Mewn dim ond pump o'r achosion perthnasol yr oedd staff wedi mynychu cyfarfodydd mewn cystodaeth.

Hefyd, mae rhai plant yn cadw hawliau i adael gwasanaethau gofal o ofal cymdeithasol plant, ac roedd staff prawf yn llai cyfarwydd â hynny. Hefyd, yn fwyaf arwyddocaol, nid yw plant yn dod yn oedolion dros nos a dylid ystyried hynny mewn perthynas â'r disgwyliadau ohonynt. Nid oedd hynny wedi digwydd bob amser, ac roedd hynny yn golygu bod plant yn wynebu risg o fethu â chydymffurfio a thramgwyddo a dychwelyd i gystodaeth. Amlygwyd yr achos canlynol gennym yn yr adroddiad interim fel enghraifft o'r problemau a achoswyd gan systemau iechyd YOI o ganlyniad i beidio cael eu hintegreiddio'n dda a methu â darparu dilyniant yn y gymuned. Mae hefyd yn amlygu cwestiynau am fuddion trosglwyddo i wasanaethau oedolion.

---

[21] *Cyflwynodd Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014* oruchwyliaeth estynedig i bob oedolyn oedd wedi bwrw dedfryd fer o garchar. Roedd yn gymwys i bobl ifanc os oeddent yn troi'n 18 oed mewn cystodaeth. Bydd y bobl yma yn destun goruchwyliaeth am 12 mis o'r dyddiad rhyddhau.

**Enghraifft o ymarfer gwael: trosglwyddo i wasanaethau prawf oedolion.**

Trodd Aled yn 18 oed ar y diwrnod cyn ei ryddhau. Roedd wedi bwrw dedfryd o wyth mis am fygwth ei fam a'r heddlu. Cyn cystodaeth, roedd wedi bod ar fechnïaeth mewn llety â chymorth, oherwydd nad oedd wedi gallu mynd adref. Roedd ganddo hanes hir o broblemau iechyd meddwl ac roedd wedi ceisio lladd ei hun ddwy waith, ac aeth i'r ysbyty o ganlyniad i hynny. Roedd y risg roedd yn ei achosi i bobl eraill yn gysylltiedig â'i iechyd meddwl.

Roed yr YOT wedi darparu gwaith rheoli achos manylach yn ystod cystodaeth, gan ddarparu ymweliadau bob pythefnos iddo.

Ar ôl ei ryddhau aseiniwyd Aled i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC), ond oherwydd risg cynyddol roedd yn rhaid ei ail aseinio i'r NPS. Cytunodd yr YOT i aros mewn cysylltiad â'r gwasanaeth prawf am gyfnod y drwydded er mwyn darparu cymorth ychwanegol.

Pan adawodd Aled gystodaeth ar Nos Calan, nid oedd unrhyw gymorth iechyd meddwl wedi cael ei sefydlu ar ei gyfer. Ei swyddog goruchwylio sylwodd ar hynny nifer o wythnosau yn diweddarach pan dechreuodd ei iechyd meddwl ddirywio a phan ddechreuodd fygwth trais. Nid oedd y swyddog wedi bod yn ymwybodol o'r atgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl.

Nid oedd yn eglur i ni pam fod angen trosglwyddo Aled i wasanaethau oedolion, a thra bod y swyddogion goruchwylio o CRC, NPS a'r YOT yn cydweithio, ni welsom unrhyw fudd i Aled.

Nid oedd bob amser yn amlwg bod y penderfyniadau i drosglwyddo plentyn i wasanaethau oedolion yn angenrheidiol nac er lles y plentyn, fel mae'r canllawiau cenedlaethol[22] yn ei orchymyn. Ac ni welsom ychwaith unrhyw gofnodion o'r broses benderfynu, sydd eto yn cael ei nodi yn y canllawiau. Roedd yna 15 o bobl ifanc yn ein sampl a drodd yn 18 oed, ac o blith y rhain trosglwyddwyd y rhan fwyaf ohonynt i wasanaethau prawf.

---

[22] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gwasanaeth Carchardai a Prawf EM. (2018). *Joint National Protocol for Transitions in England Joint protocol for managing the cases of young people moving from Youth Offending Teams to Probation Services*.

**Enghraifft o ymarfer gwael: trosglwyddo i wasanaethau oedolion.**

Roedd Oliver, 17 oed, wedi cael dedfryd o orchymyn cadw a hyfforddi dwy flynedd am droseddau rhywiol. Nid oedd ganddo euogfarnau blaenorol na chyswllt ag unrhyw wasanaethau proffesiynol. Aseswyd bod Oliver yn agored i niwed. Roedd wedi cael ei reoli ar adain arbennig yn yr YOI i blant sydd yn agored i niwed. Roedd yn fachgen bach a thawel oedd yn orbryderus iawn.

O ddechrau ei ddedfryd, dywedwyd wrth Oliver a’i deulu y byddai’n dychwelyd adref a lluniwyd cynlluniau ailsefydlu yn unol â hynny.

Trodd Oliver yn 18 oed chwe mis cyn ei ryddhau ac fe’i trosglwyddwyd i wasanaethau prawf oedolion. Nid oedd yna unrhyw swyddog prawf dynodedig, felly parhaodd y cynlluniau fel o’r blaen. Roedd ei reolwr achos YOI wedi gofyn sawl tro i’r YOT a oedd angen ei drosglwyddo i wasanaethau oedolion, oherwydd roedd yn teimlo y byddi’n cael ei reoli’n fwy diogel ac effeithiol gan yr YOT a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Ni ddywedwyd wrthi beth oedd y rhesymau dros ei drosglwyddo.

Pan ddyrannwyd swyddog prawf maes o law, penderfynwyd na allai Oliver ddychwelyd adref. Rhoddwyd gwybod iddo ef a’i deulu am hynny yn ei gyfarfod cyntaf gyda’r swyddog prawf. Roedd hynny fis cyn gadael yr YOI, a 10 mis ar ôl dechrau cynllunio.

Pan fu i ni siarad ag Oliver, roedd yn amlwg nad oedd yn gwybod beth oedd safle cymeradwyedig. Roedd yn bryderus iawn ynghylch mynd yno a gofynnodd am fwy o wybodaeth ond nid oedd wedi clywed unrhyw beth.

Roedd staff YOI yn rhwystredig gyda gwaith pontio gwael yr asiantaethau allanol, ac roeddent yn bryderus am ddiogelwch Oliver mewn safle cymeradwyedig. Roeddem yn rhannu eu pryderon.

### Trefniadau gofalu

Yn ychwanegol at yr achosion a drosglwyddwyd i wasanaethau oedolion, roedd yna nifer o achosion y gofalwyd amdanynt gan YOTau eraill. Yn unol â’r protocol cenedlaethol, mae achosion a leolir mewn ardaloedd eraill yn parhau i gael eu goruchwylio gan eu YOT gwreiddiol (cartref), ond bydd yr YOT yn ymweld â nhw ble cânt eu lleoli (gwesteio).

Yn aml iawn, oherwydd bod y lleoliadau yn hwyr yn cael eu hysbysu, roedd y trefniadau cynllunio gan yr YOTau newydd yn hwyr, ac efallai nad oedd gan yr YOT gwesteio yr un darpariaethau a gwasanaethau â’r YOT cartref. Hefyd, bydd angen i’r plentyn ffurfio perthynas waith â gweithiwr newydd, na fydd efallai wedi ei weld erioed o’r blaen. Yn aml byddant mewn ardal ble nad ydynt yn adnabod neb. Ond, o blith y pum achos yn ein sampl y gofalwyd amdanynt gan YOT arall, roedd yna enghreifftiau o gyfathrebu da a rhannu gwybodaeth.

## 3.9 Gwybodaeth a chapasiti staff

Yn ein hadroddiad interim ar gyfer yr arolygiad yma, disgrifiwyd diffyg dealltwriaeth yr YOIau am rôl gwaith achos a diffyg hyfforddiant ar gyfer y rheolwyr achos eu hunain.

Mewn YOTau, dywedodd 74 y cant o’r rheolwyr achos a gyfwelwyd gennym nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant o ran rheoli achosion ailsefydlu. Ar fwy nag un achlysur, dywedodd staff YOT wrthym mai dyma’r achos cystodaeth cyntaf yr oeddent wedi ei reoli a'u bod yn dysgu wrth fwrw ymlaen. Roedd hynny yn arbennig o wir yn achos staff prawf, a oedd mewn sefyllfa waeth oherwydd nad oedd ganddynt staff mwy profiadol i droi atynt. Nid yw hynny yn dderbyniol, o ystyried sefyllfa y grŵp yma o blant. Gwrthododd un ardal prawf dderbyn yr achosion yma oherwydd nad oedd y staff wedi cael unrhyw hyfforddiant ynghylch rheoli plant.

## 3.10 Gwaith ar y cyd

Yn arolygiad 2015, adroddwyd nad oedd y gwaith ar draws adrannau ac asiantaethau yn yr YOIau wedi ei gydlynu. Mae hynny yn dal yn wir yn 2019, ac rydym yn disgrifio hynny yn fanylach yn yr adroddiad interim. Mae hynny yn effeithio ar waith asiantaethau allanol, oherwydd nad ydynt bob amser yn gwybod beth sydd yn digwydd rhwng cyfarfodydd, ac ar brydiau ddim bryd hynny hyd yn oed.

Ychydig iawn o dystiolaeth a welsom o'r gwaith mewn cystodaeth yn cael ei barhau neu'n cael ei ddatblygu yn ystod y cyfnod trwydded. Nid oedd rheolwyr achos yr YOT yn adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd mewn cystodaeth nac yn ei ddefnyddio, a hynny drwy gyfuniad o ddiffyg gwybodaeth ddigonol am y cynnwys a chamddealltwriaeth bod hynny eisoes wedi cael ei wneud ac nad oedd angen ailymweld â'r gwaith.

Ar gyfer rhai plant, mae yna nifer o asiantaethau yn y gymuned sydd hefyd angen cydweithio - gofal cymdeithasol plant YOT, CAMHS, gwasanaethau prawf - a gallai hyn efelychu'r diffyg integreiddio mewn cystodaeth a gwaethygu'r posibilrwydd o greu bylchau neu ddyblygu gwaith.

Y fforwm ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cydlynu, a bod pob un yn gwybod am anghenion a risgiau unigol y plentyn, yw'r cyfarfodydd cynllunio gwaith achos, ac rydym eisoes wedi adrodd nad yw'r presenoldeb ynddynt yn dda.

Gwelsom ychydig o waith rhagorol, yr ydym wedi ei amlygu, pan fo asiantaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac ymyriadau a dulliau wedi eu cydlynu a'u hintegreiddio; roedd hynny er lles y plentyn. Ond, barnwyd gennym bod asiantaethau yn cydweithio'n dda er mwyn bodloni anghenion ailsefydlu mewn dim ond 24 y cant o'r achosion.

# 4. Rhannu Gwybodaeth/gweithio ar y cyd

Mae rhannu gwybodaeth a chydweithio yn rhan hanfodol o'r gwaith sydd angen ei wneud i sicrhau ailsefydlu effeithiol. Mae gan yr amrywiol asiantaethau sydd yn gweithio gyda phlant mewn cystodaeth eu cronfeydd data eu hunain, a'r YOIau hefyd. Gall hynny fod yn rhwystr i gyfnewid gwybodaeth a gwaith ar y cyd.

Yn 2015 adroddwyd gennym:

***'Roedd yna nifer o ddiffygion o ran rhannu gwybodaeth rhwng adrannau ac asiantaethau...Mewn cystodaeth roedd gwasanaethau iechyd yn aml yn defnyddio systemau gwahanol (ar gyfer gwahanol rannau o'r un system) ac nid oeddent bob amser yn rhannu gwybodaeth yn gyson. Nid oedd addysg bob amser wedi ei gydlynu'n dda gyda'r ymgynghorwyr ETE mewnol. Nid oedd yr un o'r gwasanaethau yma yn gweithio'n rheolaidd o fewn y fframwaith cynllunio dedfryd.***

***Roedd y gwaith o rannu gwybodaeth rhwng cystodaeth a'r byd y tu allan yn...llai cyson yn yr YOIau. Nid oedd rhieni/gofalwyr bob amser yn ymwybodol o beth oedd yn digwydd, yn gallu dylanwadu neu gyfranogi mewn cynlluniau ar gyfer ailsefydlu llwyddiannus. Yn rhy aml roedd y wybodaeth am waith oedd yn canolbwyntio ar droseddu a wnaethpwyd mewn cystodaeth ddim yn cael ei derbyn gan YOT neu roedd hynny yn cael ei wneud yn rhy hwyr er mwyn eu galluogi i'w defnyddio yn adeiladol. Roedd hynny hefyd yn wir am ETE a gwybodaeth am iechyd'.***

Mae'r broses o rannu gwybodaeth wedi gwella ers arolygiad 2015; roedd yr YOT a'r YOI wedi cydweithio mewn 95 y cant o'r achosion yn ystod cystodaeth, er nad oedd rheolwyr achos YOT bob amser yn glir ynghylch cynnwys ymyriadau a/neu addysg.

Nodwyd yn yr adroddiad interim nad oedd yr amrywiol gronfeydd data a'r systemau cofnodi a ddefnyddiwyd gan weithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda phlant yn helpu gwaith ailsefydlu. Roedd cofnodi gan yr amrywiol asiantaethau yn anghyson, darniog a heb ei gydlynu, ac nid oedd ar gael i'r holl weithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda'r plentyn. Roedd rhai asiantaethau neu weithwyr proffesiynol yn gweithio heb ddeall amgylchiadau'r plentyn yn iawn, ac felly nid oeddent yn gallu ystyried ei risgiau neu ei anghenion yn llawn.

Bu i ni ddisgrifio'r problemau mewn perthynas ag YJAF, y system wybodaeth a ddyluniwyd i bontio'r bwlch rhwng yr YOI a'r YOTau, gan amlygu achos oedd yn dangos canlyniadau posibl peidio darparu gwybodaeth o'r gymuned i'r YOI yn brydlon. Cyfeirir at yr achos hwnnw eto isod:

| Enghraifft o ymarfer gwael: canlyniad posibl diffyg cysylltedd |
|---|
| Dedfrydwyd Thomas, 17 oed, i bedwar mis mewn cystodaeth. Yn ystod y misoedd cyn ei ddedfryd, roedd yn dioddef â ffitiau, a oedd wedi achosi iddo orfod mynd i'r ysbyty ddwywaith. Nid oedd y broblem wedi cael ei diagnosio pan aeth i gystodaeth.<br><br>O ganlyniad i broblemau gyda YJAF, nid oedd yr YOI wedi cael asesiad AssetPlus tan ddau ddiwrnod ar ôl iddo gyrraedd. Felly nid oedd neb yn yr YOI yn ymwybodol ei fod yn cael ffitiau tan hynny. Cymerodd yr YOI gamau ar unwaith ar ôl derbyn y wybodaeth, ac yn ffodus nid oedd Thomas wedi bod yn wael yn y cyfamser (er iddo gael ffit yn ddiweddarach tra ei fod yn dal mewn cystodaeth). |

Yn yr adroddiad hwnnw hefyd amlygwyd canlyniadau methu â darparu gwybodaeth y ffordd arall, o gystodaeth i’r gymuned ar adeg rhyddhau. Cyfeirir at yr achos hwnnw eto isod:

| Enghraifft o ymarfer gwael: Gwaith ailsefydlu iechyd YOI |
| --- |
| Derbyniodd Rhys, 17 oed, ddedfryd o wyth mis mewn cystodaeth. Ar y cychwyn nid oedd ganddo unman i fyw; ond yn hwyr yn ystod ei ddedfryd cytunodd ei dad y gallai fyw gydag ef.<br><br>Yn ystod ei ddedfryd, daeth yn fwy a mwy gorbryderus a dechreuodd wrthod gadael ei gell. Fe’i atgyfeiriwyd at wasanaethau iechyd meddwl a gofynnodd am feddyginiaeth, ond gwrthodwyd hynny.<br><br>Rhyddhawyd Rhys dros gyfnod y Nadolig, a phan gyfarfu â’i weithiwr cyffuriau YOT, datgelodd ei fod wedi cael cyflenwad pythefnos o gyffuriau gwrth iselder. Nid oedd ei dad nac unrhyw un o’r gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gydag ef yn ymwybodol o hynny ac nid oedd apwyntiad wedi cael ei drefnu iddo fynd i weld meddyg teulu. |

Adroddwyd gennym hefyd bod swm sylweddol o ddata defnyddiol yn cael ei gofnodi gan YOTau a YOIau, nad yw'n cael ei gasglu’n effeithiol gan unrhyw asiantaeth ar hyn o bryd. Heb y wybodaeth strategol yma, sydd ar gael, mae’n anodd cyfeirio adnoddau yn effeithiol a gwella gwasanaethau. Er enghraifft, mae darparu llety addas a diogel yn brydlon yn parhau i fod yn broblem ystyfnig i nifer fechan o blant yn anecdotaidd. Yn yr un modd mae’r ddarpariaeth o ETE o ansawdd uchel yn annigonol. Nid problemau newydd yw'r rhain, ond er hynny nid oes dim data dibynadwy ar gael er mwyn profi neu wrthbrofi realiti neu faint y naill broblem na’r llall.

## Canfyddiadau ynghylch rhannu gwybodaeth

Effeithiwyd ar waith ailsefydlu gan fodolaeth nifer o gronfeydd data a gwahanol systemau cofnodi a ddefnyddir gan y gweithwyr proffesiynol sydd yn gweithio gyda phlant. Roedd cofnodi gan yr amrywiol asiantaethau yn anghyson, darniog a heb ei gydlynu, ac nid oedd ar gael i’r holl weithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda’r plentyn. Roedd rhai asiantaethau neu weithwyr proffesiynol yn gweithio heb ddeall amgylchiadau’r plentyn yn iawn, ac felly nid oeddent yn gallu ystyried ei risgiau neu ei anghenion yn llawn. Nid oedd yn dderbyniol bod dibyniaeth ar YJAF yn golygu bod YOIau yn agored i fethu cael gwybodaeth neu dderbyn gwybodaeth yn hwyr a allai fod yn gritigol i’r plant sydd yn mynd i gystodaeth.

Roedd y diffyg data a goladwyd er mwyn hysbysu’r gwasanaethau a ddarparwyd yn siomedig, o ystyried bod y problemau ynghylch llety ac ETE mewn perthynas ag ailsefydlu yn hysbys ers amser.

## 5. Casgliadau a goblygiadau

Yn ein hadroddiad interim, daethom i'r casgliad nad yw gwaith ailsefydlu wedi ei integreiddio'n dda yn yr YOIau ac nad oedd yn canolbwyntio ar ailsefydlu. Nid oedd y cyfarfodydd cynllunio, ddylai fod yn fforymau ar gyfer cydlynu gwaith ailsefydlu, yn cael eu mynychu'n dda gan weithwyr proffesiynol ac eithrio'r rheolwyr achos. Roedd eu mewnbwn yn oddefol ac roeddent yn canolbwyntio ar yr amser mewn cystodaeth. Nid oedd ymyriadau wedi cael eu teilwra i'r unigolion. Gyda rhai eithriadau amlwg, roedd prosesau yn cael eu dilyn heb unrhyw wir fudd i'r plant. Yn anffodus, mae hynny hefyd yn wir am yr asiantaethau allanol.

Er na chwblhawyd llawer o waith gyda'r bechgyn mewn cystodaeth, pan oedd hynny'n digwydd, ni atgyfnerthwyd hynny ac ni ddatblygwyd ar hynny ar ôl rhyddhau i'r gymuned. Roedd yna fwlch rhwng elfennau cystodaeth a chymunedol y ddedfryd.

Ar adeg o newid ym mywydau pobl ifanc, wrth iddynt adael cystodaeth i'r gymuned, roedd yna newidiadau ychwanegol wrth i achosion gael eu trosglwyddo rhwng asiantaethau, o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion, a threfniadau gofalu gan wahanol YOTau, oedd heb lawer o amser i baratoi at gyrhaeddiad y person ifanc o ganlyniad i hysbysu hwyr mewn perthynas â llety.

Roedd darparu llety yn arbennig o anodd ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal, ac roedd hysbysu hwyr am leoliadau yn amharu ar gynllunio ailsefydlu.

Ychydig iawn o ddarpariaeth ETE oedd wedi ei sefydlu ar gyfer y bechgyn oedd yn gadael cystodaeth. Yn aml iawn roedd YOTau yn gwneud eu gorau i lenwi'r bylchau mewn darpariaeth prif lif ar gyfer y bechgyn yr oeddent yn eu goruchwylio. Yn achos y rhai oedd yn gymwys, roedd yna oedi o ran sicrhau budd-daliadau.

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd yna brinder gwaith caled nac ymrwymiad i les y plant gan staff mewnol ac allanol; ond roedd hynny yn aneffeithiol i raddau helaeth. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal, cynlluniau yn cael eu llunio; ond ychydig iawn o fudd gaiff y plentyn o ganlyniad i hynny.

# Cyfeiriadau


Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Proven Offending Statistics: January to March 2017*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/775079/proven_reoffending_bulletin_January_to_March_17.pdf

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2019). *Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid:* 2017 i 2018 Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2017-to-2018. Mynediad ar 16 Ebrill 2017.

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2019), *Custody and resettlement: section 7 case management guidance*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/custody-and-resettlement

Yr Adran Addysg. (2010). Canllawiau Statudol - Deddf Plant 1989: plant arferai dderbyn gofal mewn cystodaeth.

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gwasanaeth Carchardai a Prawf EM. (2018). *Joint National Protocol for Transitions in England: Joint protocol for managing the cases of young people moving from Youth Offending Teams to Probation Services*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/joint-national-protocol-for-transitions-in-england

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gwasanaeth Carchardai a Prawf EM. (2015). *Egwyddorion a chanllawiau pontio o ieuenctid i oedolion (Cymru)*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/youth-to-adult-transition-principles-and-guidance-for-wales

# Atodiad 1: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Rhaglen achrededig** | Rhaglen waith a ddarperir i droseddwyr mewn grwpiau neu'n unigol drwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu ran o ddedfryd cystodaeth neu amod mewn trwydded carchar. Mae rhaglenni achrededig yn cael eu hachredu gan Banel Achredu Gwasanaethau Cywiro fel rhai sydd yn effeithiol o ran lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. |
| **AssetPlus** | Fframwaith asesu a chynllunio a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu, neu sydd yn wynebu risg o droseddu, sydd yn adlewyrchu ymchwil a dealltwriaeth a beth sydd yn gweithio gyda phlant. |
| **Rheolwr achos** | Yr ymarferydd YOI sydd yn bennaf gyfrifol am reoli achos plentyn mewn cystodaeth neu sydd yn destun goruchwyliaeth YOT yn y gymuned. |
| **CAC** | Y Cwmni Adsefydlu Cymunedol |
| **ETE** | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith er mwyn gwella dysgu unigolyn, a gwella ei obeithion cyflogaeth. |
| **HMPPS** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS): yr asiantaeth unigol sydd yn gyfrifol am wasanaethau carchardai a phrawf. Gweler y nodyn isod ar NOMS |
| **Ymyrraeth** | Y gwaith a wneir yn uniongyrchol gyda'r plentyn gyda'r bwriad o'i helpu i newid ei ymddygiad. |
| **Trwydded** | Yr amodau a gymhwysir i berson am gyfnod penodol ar ôl ei ryddhau o gystodaeth. |
| **Plentyn sy'n derbyn gofal** | Plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, o ganlyniad i orchymyn llys neu gytundeb gwirfoddol gyda'r rhieni. |
| **MAPPA** | Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaeth: pan fo'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn cydweithio'n lleol er mwyn rheoli troseddwyr sydd yn achosi mwy o risg o niwed i eraill. Fel arfer mae Lefel 1 yn golygu rheolaeth asiantaeth pan ellir rheolir risgiau a achosir gan y troseddwr gan yr asiantaeth sydd yn gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr. Mae Lefelau 2 a 3 yn golygu bod angen rheolaeth amlasiantaeth weithredol. |
| **MoJ** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **nDelius** | National Delius: y system rheoli achosion gymeradwyedig a ddefnyddir gan yr NPS a'r CRC yng Nghymru a Lloegr. |
| **p Nomis** | Y gronfa ddata a ddefnyddir gan y gwasanaeth carchardai. |
| **NPS** | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: un gwasanaeth cenedlaethol a sefydlwyd ym Mehefin 2014. Ei rôl yw |

| | |
|---|---|
| | darparu gwasanaethau i'r llysoedd er mwyn rheoli grwpiau penodol o droseddwyr, yn cynnwys rhai sydd yn achosi risg uchel neu uchel iawn o niwed a rhai sydd yn destun MAPPA. |
| **Deilliannau** | Y canlyniad terfynol, nid y broses o gyrraedd y canlyniad. |
| **Swyddogion Personol** | Staff YOI sydd yn brif gyswllt i'r plentyn. |
| **Darparwyr** | Mae darparwyr yn darparu gwasanaeth neu fewnbwn a gomisiynir gan ac a ddarperir dan gontract i'r NPS neu CRC. Mae hynny yn cynnwys staff a gwasanaethau a ddarperir o dan gontract, hyd yn oed pan fônt yn integredig neu wedi eu lleoli o fewn NPS neu CRC. |
| **Ailsefydlu** | Dychwelyd i'r gymuned ar ôl amser mewn cystodaeth. |
| **ROTL** | Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro: mae'n hwyluso amser yn y gymuned cyn rhyddhau. Dylid ei ddefnyddio i gynorthwyo ailsefydlu llwyddiannus. |
| **SHPO** | Mae Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol yn orchymyn a roddir gan lys ynadon neu Lys Y Goron i unigolyn yr ystyrir ei fod yn achosi risg o niwed rhywiol i naill ai'r cyhoedd neu grŵp penodol o bobl neu unigolion. Mae SHPO wedi disodli'r gorchymyn blaenorol cyffelyb y cyfeiriwyd ato fel Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol (SOPO). |
| **Tîm o gwmpas y plentyn** | Mae dull tîm o gwmpas y plentyn yn dod ag amrywiaeth o wahanol ymarferwyr at ei gilydd er mwyn cefnogi plentyn unigol neu berson ifanc a'i deulu. Mae'n rhoi'r pwyslais yn bendant ar anghenion a chryfderau'r plentyn yn hytrach nag ar sefydliadau a darparwyr gwasanaethau. |
| **Pontio** | Y newid o wasanaethau troseddu plant i wasanaethau troseddu oedolion. |
| **YCS** | Gwasanaeth Cystodaeth Ieuenctid |
| **YJAF** | Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid: platfform ar-lein a grëwyd ar gyfer YOTau ac Ystadau Diogel er mwyn cyfathrebu'n effeithiol (yn cynnwys rhannu AssetPlus, cofnodion dyddiaduron achos etc.) a lawrlwytho dogfennau ffurfiol a thempledi o'r YJB nad ydynt yn addas i'w rhannu â'r cyhoedd. |
| **YJB** | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid: un o gyrff y llywodraeth sydd yn gyfrifol am fonitro a chynghori gweinidogion ar effeithiolrwydd y system cyfiawnder ieuenctid. Darparwyr grantiau ac arweiniad i'r timau troseddau ieuenctid. |
| **YOT** | Tîm troseddau ieuenctid: timau/gwasanaethau yn y gymuned sydd yn gweithio gyda phlant sydd wedi troseddu. |
| **YOI** | Sefydliad troseddwyr ifanc: cyfleuster cystodaeth ar gyfer pobl ifanc 15–18 oed. |

# Atodiad 2: Methodoleg

Gwnaethpwyd y gwaith maes ar gyfer cyfnod cystodaeth yr arolygiad thematig yma yn ystod arolygiadau blynyddol o'r pum YOI gan Arolygiaeth Carchardai EM: HMPYOI Parc, Cookham Wood, Feltham, Werrington a Wetherby & Keppel, o Hydref 2018 i Fawrth 2019.

Yn ystod y gwaith maes archwiliwyd sampl o achosion ar draws y pum ystâd. Detholwyd yr achosion oherwydd eu bod yn agos at eu dyddiad rhyddhau. Cynhaliodd arolygwyr Arolygiaeth Prawf EM adolygiadau achos a chyfweld â rheolwyr achos a phlant, pan oedd hynny'n bosibl. Darparodd arolygwyr Arolygiaeth Carchardai EM wybodaeth am waith ailsefydlu o ran iechyd ac ETE.

Roedd gwaith maes YOI yn cynnwys:

- 50  adolygiad achos
- 39 cyfweliad â rheolwyr achos YOI
- 5 cyfarfod â phenaethiaid gwaith achos YOI
- 36 cyfarfod â phlant.

### Proffil achos

- Pob un yn wrywaidd ac wedi cael dedfryd o orchymyn cadw a hyfforddi
- Roedd 10 (20 y cant) yn cael eu cadw mewn YOI yng Nghymru
- Nododd 47 (96 y cant) mai Saesneg oedd eu iaith gyntaf
- Roedd 28 (57 y cant) yn wyn
- Roedd 29 (58 y cant) naill ai yn blant sydd neu oedd derbyn gofal gan awdurdod lleol

Roedd yna ddangosyddion mewn perthynas â:


- chamfanteisio'n rhywiol mewn 5 (10 y cant) achos
- llinellau cyffuriau mewn 9 (19 y cant) achos
- caethwasiaeth fodern/masnachu pobl mewn 3 (6 y cant) achos
- gangiau mewn 22 (44 y cant) achos.

Yn ystod y cam cymunedol, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2019, traciwyd yr achosion i'r gymuned ac fe'u harchwiliwyd tua thri mis ar  ôl rhyddhau'r plentyn o gystodaeth. Pan fo'n bosibl, cynhaliwyd y cyfweliadau archwilio cymunedol ar ffurf trafodaethau ford gron gyda'r holl weithwyr proffesiynol oedd yn ymwneud â'r plentyn. Gwahoddwyd rheolwyr achos YOI i gymryd rhan yn y trafodaethau ford gron hynny er mwyn hyrwyddo  gwell dealltwriaeth a chydweithio ar draws cystodaeth a chymuned. Cynhaliwyd cyfweliadau ar wahân gyda phlant a rhieni.

Roedd gwaith maes YOT yn cynnwys:

- 72 cyfweliad gyda gweithwyr YOT
- 9 cyfweliad gyda goruchwylwyr prawf
- 22 cyfweliad gyda gweithwyr proffesiynol eraill
- 16 cyfweliad gyda phlant
- 16 cyfweliad â rheolwyr achos YOI yn y gymuned.

## Atodiad 3: Taith y Person Ifanc Adsefydlu



Her Majesty's Inspectorate of Probation

HM Inspectorate of Probation
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

ISBN: 978-1-84099-899-3